


# Cynllun Datblygu Lleol Newydd 2018-2033

## Papur Cefndir

**Medi 2018**

## PC15: Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr

CONWY
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL

CONWY
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL

# Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr

Ionawr 2017



# Cynnwys

**Pennod Un: Cyd-destun Polisi** ........ 3

**Pennod Dau: Cefndir a dadansoddiad o ddata presennol** ........ 6

Tabl 1: Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr 2011-2016. Ffynhonnell: Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr Gogledd-orllewin Cymru; Prifysgol Bangor. .. 6

Tabl 2: Nifer y Sipsiwn a'r Teithwyr mewn Awdurdodau Lleol 2011. Ffynhonnell: ONS; © Hawlfraint Y Goron ........ 9

Tabl 3: CT0128 – Math o lety – Pob Aelwyd Personau â grŵp ethnig Gwyn: Sipsi neu Deithiwr Gwyddelig; Ffynhonnell: Cyfrifiad 2011 (27 Mawrth)........ 9

Cyfrif Carafanau ........ 10

Tabl 4: Nifer y safleoedd yn ôl awdurdodiad ac awdurdod lleol 2014-2015; Ffynhonnell: Ystadegau Cymru © Hawlfraint Y Goron........ 10

Tabl 5: Nifer y carafanau yn ôl awdurdodiad ac awdurdod lleol 2014-2015; Ffynhonnell: Ystadegau Cymru © Hawlfraint Y Goron........ 10

Tabl 6: Nifer y lleiniau yn ôl awdurdod lleol; Ffynhonnell: Ystadegau Cymru © Hawlfraint Y Goron........ 10

Tabl 7: Nifer y safleoedd yn ôl awdurdodiad; Ystadegau Cymru © Hawlfraint Y Goron........ 11

**Pennod Tri: Methodoleg** ........ 13

**Pennod Pedwar: Canfyddiadau'r Arolwg** ........ 22

Tabl 8 – Log Cyfweliadau ........ 22

Tabl 9 – Nifer yr aelwydydd wedi'u crynhoi yn ôl math o lety........ 23

Tabl 10 – Nifer yr aelwydydd wedi'u crynhoi yn ôl math o lety ........ 23

Proffil demograffig o'r boblogaeth ........ 23

Tabl 11 – Oed a Rhyw (Cyfrif) ........ 23

Addasrwydd y llety presennol........ 23

Tabl 14 – Boddhad â Ble ydych yn byw nawr? ........ 24

Tabl 15 – Am faint ydych chi'n meddwl aros yma?........ 24

Tabl 16 – Os ydych yn byw mewn carafán, a oes digon o ardaloedd cysgu i bob preswylydd?........ 24

Dyheadau o ran llety........ 25

Tabl 17 – Rhesymau dros fod yn anfodlon â llety presennol ........ 25

Twf aelwydydd........ 26

Gwybodaeth ychwanegol gan Siewmyn sydd â diddordeb yn yr ardal ........ 26

**Pennod Pump: Asesu anghenion llety**........ 28

Angen nas diwallwyd – Safleoedd Tramwy ........ 29

**Pennod Chwech: Casgliadau ac Argymhellion** .... 32
Darpariaeth Llety Preswyl .... 32
**Darpariaeth Dramwy** .... 33
**Atodiad 1 - Geirfa** .... 35
Atodiad 2 – Map o Ddwysedd Sipsiwn a Theithwyr mewn Llety Brics a Morter a nodwyd yng Nghyfrifiad 2011. .... 38
Atodiad 3 – Map o leoliadau Gwersylloedd Diawdurdod yn ystod 2015. .... 39
**Atodiad 4 – Enghreifftiau o Hysbysebu ar Gyfryngau Cymdeithasol / Gwefan** .... 40
**Atodiad 5 – Taflen Hyrwyddo** .... 47
Tabl 6 – Log Cyfweliadau .... 48

## Pennod Un: Cyd-destun Polisi

Bwriad Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr (SaTh) yw darparu dealltwriaeth o'r materion sy'n ymwneud â llety SaTh fel bo modd rhoi darpariaeth mewn lle. Mae cynllunio darpariaeth arbenigol fel hyn yn lleihau'r posibilrwydd o esblygiad safleoedd ad-hoc neu di-awdurdod. Y tuedd yw nad oes gan y safleoedd hyn y seilwaith angenrheidiol i gefnogi anghenion ac mae materion cyfreithiol yn gysylltiedig â nhw.

Mae'n ofyniad statudol i gynhyrchu ac yna gweithredu ar Asesiad Llety SaTh fel y nodir yn Neddf Tai (Cymru) 2014. Mae'r asesiad wedi'i gynnal gyda chyfeiriad at y ddeddfwriaeth a'r canllawiau ychwanegol canlynol:

- Pwerau Deddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013.
- Cylchlythyrau Cynllunio 30/2007 a 78/91.
- Canllaw Llywodraeth Cymru – Dylunio Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr.

Mae'r asesiad hwn wedi'i gynnal ar y cyd â Chyngor Sir Ddinbych ond bydd dogfennau'n cael eu cyflwyno gan y ddau awdurdod ar wahân.

### Polisïau Lleol Perthnasol

Cynhwysir y polisi lleol allweddol sy'n ymwneud â Llety Sipsiwn a Theithwyr yng Nghynllun Datblygu Lleol Conwy 2007 -2022 fel a ganlyn: Polisi HOU/9 'Diwallu angen Sipsiwn a Theithwyr am safle' sy'n datgan:

*'1. Os nodir bod angen maes carafanau ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr, caniateir cynigion cyn belled a bo'r holl feini prawf canlynol yn cael eu bodloni:*

> *a. rhaid i'r safle fod yn addas ar gyfer y math hwn o ddefnydd gyda thebygolrwydd realistig y gellir datblygu'r safle yn ystod cyfnod y cynllun;*
>
> *b. rhoddir ystyriaeth i dir a ddatblygwyd o'r blaen, neu dir gwag, ar ymylon ardaloedd trefol cyn safleoedd mewn lleoliadau gwledig. Gallai safleoedd mewn lleoliadau gwledig neu led-wledig fod yn dderbyniol hefyd cyn belled a'u bod yn parchu maint cymunedau cyfagos ac nad ydynt yn rhoi baich gormodol ar seilwaith lleol;*
>
> *c. caiff safleoedd a ddyrannwyd at ddibenion eraill eu rhyddhau fel eithriad yn unig os yw asesiad o'r angen lleol am dai wedi canfod bod angen safle i Sipsiwn neu Deithwyr, os na ellir diwallu'r angen mewn unrhyw ffordd arall ac os nad yw maint y datblygiad yn fwy na lefel yr angen a nodwyd;*
>
> *d. mae'r safle yn hygyrch i siopau, ysgolion a chyfleusterau iechyd trwy drafnidiaeth gyhoeddus, ar droed neu ar feic;*

*e. mae mynediad da ar gael i'r prif rwydwaith trafnidiaeth ac ni fydd y datblygiad arfaethedig yn achosi tagfeydd traffig na phroblemau o ran diogelwch ar y priffyrdd;*

*f. mae gan y safle sgrin briodol eisoes neu mae'n bosibl ei sgrinio a'i dirlunio'n ddigonol;*

*g. bydd gan y safle wasanaethau digonol ar y safle ar gyfer cyflenwad dŵr; trydan; draenio; gwaredu carthion; a chyfleusterau gwaredu gwastraff.*

*h. ni fyddai'r cynnig yn cael effaith andwyol ar amwynder meddiannwyr cyfagos.*

Mae'r CDLl hefyd yn cynnwys polisïau eithriadau gwledig mewn perthynas â datblygu tai fforddiadwy. Fodd bynnag, nid yw lletyau ar safleoedd Sipsiwn a Theithwyr yn cael eu hystyried yn niffiniad Llywodraeth Cymru o 'dai fforddiadwy' felly nid oes unrhyw effaith uniongyrchol ar yr astudiaeth hwn.

Yn ystod 2016 mae safle preswyl newydd wedi cael ei ddatblygu ar Ffordd Bangor, Conwy i ddiwallu anghenion a nodwyd yn yr asesiad blaenorol. Ceir mynediad at hwn yn yr un ffordd â thai cymdeithasol.

Mae cofrestr tai cyffredin a pholisi dyraniadau wedi cael eu llunio i adlewyrchu'r ddeddfwriaeth newydd a bydd cod ymarfer newydd yn cael ei ddarparu gan Lywodraeth Cymru.

Sef:

- Deddf Tai (Cymru) 2014
- Cod Canllawiau i Awdurdodau Lleol ar Ddyrannu Llety a Digartrefedd – Llywodraeth Cymru Ebrill 2015

Rheolir y gofrestr gan Gartrefi Conwy ac mae'n galluogi cwsmeriaid i wneud cais trwy un ffynhonnell i unrhyw landlord cymdeithasol yng Nghonwy. Gellir cael mynediad at y Polisi trwy'r ddolen ganlynol:

http://www.conwyhousing.co.uk/index.php?section=accommodation&option=chs_sarth

Mae polisi gosod lleol yn cael ei ddatblygu ar gyfer safle Ffordd Bangor er mwyn sicrhau bod dyraniadau'n cael eu gwneud mewn modd sensitif ac er mwyn cymryd i ystyriaeth anghenion llety penodol y Gymuned Sipsiwn a Theithwyr.

**Diffiniad o dermau allweddol**

Mae'r adroddiad hwn yn defnyddio diffiniadau tebyg i'r rhain a gynhwysir yng nghanllaw *Cynnal Asesiadau Llety Sipsiwn a Theithwyr* Llywodraeth Cymru. Mae hwn yn cynnwys diffiniad o Sipsiwn a Theithwyr fel a ganlyn:

*Sipsiwn a Theithwyr*

*(a) personau sy'n arfer ffordd nomadig o fyw, beth bynnag fo'u hil neu eu tarddiad, gan gynnwys:*

*(1) personau sydd, ar sail eu hanghenion addysg, eu hanghenion iechyd neu eu henaint eu hunain, neu anghenion addysg, anghenion iechyd neu henaint aelod o'u teulu neu ddibynnydd, ac ar y sail honno yn unig, wedi rhoi'r gorau i deithio dros dro neu yn barhaol, ac*

*(2) aelodau o grŵp trefnedig o siewmyn teithiol neu bersonau sy'n rhan o syrcasau teithiol (p'un a ydynt yn cyd-deithio mewn grŵp tebyg ai peidio); a*

*(c) unrhyw bersonau eraill sydd â thraddodiad diwylliannol o nomadiaeth neu o fyw mewn cartref symudol.*

Ffynhonnell: Adran 108, Deddf Tai (Cymru) 2014

Gellir gweld diffiniadau allweddol eraill yn yr Eirfa yn atodiad 1 isod.

## Pennod Dau: Cefndir a dadansoddiad o ddata presennol

Nid yr Asesiad Llety SaTh hwn yw'r cyntaf i gael ei gynnal yn ardal gogledd Cymru. Yr Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr diweddaraf i gael ei gynnal oedd yr un gan Brifysgol Bangor ar gyfer rhanbarth gogledd Cymru yn 2013. Ei deitl oedd Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr Gogledd-orllewin Cymru ac roedd yn asesu anghenion SaTh Conwy, Sir Ddinbych, Gwynedd, Sir y Fflint ac Ynys Môn.

Roedd yr asesiad yn defnyddio data cynradd ar ffurf arolwg holiadur. Defnyddiwyd trefn samplo fwriadus, sef dull samplo sy'n briodol wrth dargedu grŵp cymdeithasol penodol a phan nad yw cymesuredd yn brif bryder.

Roedd y data canlynol yn sylfaen i'r casgliadau ynghylch lefel y galw am safleoedd preswyl.

Tabl 1: Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr 2011-2016. Ffynhonnell: Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr Gogledd-orllewin Cymru; Prifysgol Bangor.

| | | Conwy | Sir Ddinbych | Gwynedd | Ynys Môn | Sir y Fflint | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Cyflenwad Preswyl Presennol** | | | | | | |
| **1** | Lleiniau rhentu cymdeithasol | 0 | 0 | 7 | 0 | 20 | 27 |
| **2** | Lleiniau awdurdodedig preifat | 0 | 0 | 5 | 0 | 44 | 49 |
| **3** | Cyfanswm lleiniau awdurdodedig | 0 | 0 | 12 | 0 | 66 | 78 |
| **4** | Lleiniau ar gyfer Siewmyn Teithiol | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| | **Yr angen am leiniau preswyl 2011–16** | | | | | | |
| **5** | Diwedd caniatâd cynllunio dros dro | 0 | 0 | 0 | 0 | 6 | 6 |
| **6** | Natur aelwydydd newydd o safleoedd | 0 | 0 | 2 | 0 | 10 | 12 |
| **7** | Datblygiadau di-awdirdod (goddefol / anoddefol) | 0 | 0 | 2 | 0 | 2 | 4 |
| **8a** | Symud rhwng safleoedd a thai (tu allan i'r safle) | 0 | 0 | -1 | 0 | 0 | -1 |
| **8b** | (i mewn i'r safle) | 2 | 1 | 5 | 1 | 5 | 14 |
| **9** | Cau safleoedd | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **10** | Gwersylloedd Diawdurdod | 1 | 1 | 1 | 10 | 1 | 14 |
| **11** | **Angen preswyl ychwanegol** | | | | | | |
| **a** | : Gorlawn ar hyn o bryd | 0 | 0 | 1 | 0 | 12 | 13 |
| **b** | : Net mewnfudo / allfudo | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **c** | : Anghenion preswyl eraill | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| | **Cyflenwad ychwanegol 2011-16** | | | | | | |
| **12** | Lleiniau sydd ar gau ar hyn o bryd ond sydd ar fin cael eu hailddefnyddio | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **13** | Lleiniau gyda chaniatâd ond heb eu datblygu | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **14** | Safleoedd newydd wedi'u cynllunio | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **15** | Lleoedd gwag ar safleoedd rhentu cymdeithasol | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **16** | Cyfanswm cyflenwad 2011 - 16 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **17** | **Diffyg Angen Preswyl sy'n weddill 2011-16** | **3** | **2** | **10** | **11** | **36** | **62** |

Yn astudiaeth 2013 canfuwyd bod angen 3 llain breswyl i ymdopi â'r galw yng Nghonwy. Mae safle addas gyda 4 llain wedi'i ddatblygu ar Ffordd Bangor yng Nghonwy i ddiwallu'r angen hwn.

Daeth astudiaeth 2013 i'r casgliadau canlynol mewn perthynas â'r angen am safleoedd tramwy.

- *Yn flynyddol, mae oddeutu 55 achos o wersyllu yn digwydd yn ardal yr astudiaeth*
- *Mae 10% o achosion o wersyllu dros dro, tua chwech yn ystod y flwyddyn, yn digwydd pan fydd pobl yn chwilio am lety ar safle parhaol, ac fe'u trafodir o dan y gofyn am safle parhaol*
- *Felly byddai 90% o achosion o wersyllu, sef cyfanswm o ryw 49, yn chwilio am lety tramwy*
- *Yr uchafswm aros fyddai mis, er y byddai rhai achosion o wersyllu yn para llai na hynny*
- *Byddai llety ar gyfer 7 carafán yn delio â'r rhan fwyaf o achosion o wersyllu.*

*Gan ddefnyddio 7 fel ffigwr gweithio, byddai gofynion tramwy ar gyfer (49 wedi'i luosi â 7) carafan y flwyddyn, neu 343 yn ystod y flwyddyn. Yn fisol, mae hyn yn gyfanswm o 28.5 carafán. Fodd bynnag, […]gall hyn gynnwys elfen o gyfrif ddwywaith. Yn ôl cyfran, cofnodir tua 47% o achosion o wersyllu yn ardaloedd Gwynedd ac Ynys Môn, 15% yn ardal ganolog Conwy a Sir Ddinbych, a 37% yn Sir y Fflint.*

*Gan hynny awgrymir y dylai awdurdodau gydweithio i ystyried darparu tri neu bedwar o safleoedd tramwy ar gyfer hyd at saith o garafanau. Am sawl rheswm, ffafrir y syniad o ddarparu mwy nag un safle*

- *Maent yn fwy tebygol o gael eu defnyddio os ydynt yn agos at leoedd aros traddodiadol*
- *Byddai'n lleihau maint pob safle*
- *Byddai'n lleihau anawsterau sy'n codi o densiwn ethnig neu densiwn rhwng teuluoedd.*
- *Ni fyddai darparu un safle tramwy i'r ardal gyfan yn datrys y problemau. Mae'n bwysig bod lle ar gael i ddeiliaid symud ymlaen ac mae gofyn cael rhwydwaith. Dylai awdurdodau lleol weithio ar y cyd i nodi safleoedd priodol ar gyfer llety dros dro ar sail ranbarthol*[1]*.*

Ers cyflwyno asesiad 2016 mae swyddogion o bob Awdurdod wedi bod yn archwilio pa mor ymarferol fyddai datblygu safle tramwy ar y cyd.

Mewn ymgynghoriad 'galwad am safleoedd' a gynhaliwyd yn 2015, ystyriwyd safle yng nghilfan Smithy ger Llansan Sior a fyddai'n safle tramwy posibl neu fan aros dros dro, ond cafwyd gwrthwynebiad sylweddol yn lleol. Mae trafodaethau ar y gweill gyda Llywodraeth Cymru a phartïon eraill sydd â diddordeb ynghylch perchnogaeth tir.
Y prif rwystr i ddarpariaeth ar y cyd yw cyfyngiadau pwerau'r heddlu i symud sipsiwn a theithwyr sy'n gwersylla'n ddiawdurdod.

Os yw tresmaswyr yn gwrthod gadael y tir ar ôl gofyn iddynt wneud hynny, mae adrannau 61-62 Deddf Cyfiawnder Troseddol a Threfn Gyhoeddus 1994 yn rhoi pwerau disgresiwn i'r heddlu orchymyn tresmaswyr i adael a chael gwared ar unrhyw eiddo neu gerbydau sydd ganddynt, lle mae meini prawf diffiniedig yn cael eu bodloni.

Mae gan yr heddlu bwerau ar wahân o dan adrannau 62 A-E Deddf 1994 i orchymyn tresmaswyr a theithwyr i adael tir a chael gwared ar unrhyw gerbyd ac eiddo o'r tir os oes llain addas ar gael ar safle carafanau mewn man arall yn yr awdurdod lleol. Felly, os crëir safle tramwy yn Sir Ddinbych yn unig, yna ni fyddai modd symud pobl o wersylloedd diawdurdod yn Sir Conwy yno.

Felly, mae pwerau'r heddlu yn ystyriaeth bwysig wrth benderfynu sut i ddarparu safle tramwy. Os na all yr heddlu ddefnyddio'i bwerau yna mae'n rhaid i'r Awdurdod gymryd camau yn y Llys Sirol i geisio meddiannu'r tir. Byddai hyn yn cymryd llawer o amser swyddogion, yn gost ariannol i'r awdurdod ac yn cael effaith negyddol ar y berthynas rhwng Teithwyr a Chynghorau. Mae'n rhaid i breswylwyr di-awdurdod gael rhybudd i adael ac

1

mae'n rhaid i'r awdurdod aros am orchymyn llys ar gyfer meddiant a gwarant meddiant cyn y gellir cymryd camau i gael gwared ar y gwersyll yn gorfforol.

## Data poblogaeth

Ochr yn ochr â'r casgliad data cynradd mae ffynonellau data eilradd ar gael. Data ategol yw hwn yn unig a dylid ond ei ddefnyddio i gefnogi'r prif adnodd cynradd.

Ffynhonnell eilradd ddefnyddiol yw Cyfrifiad 2011. Am y tro cyntaf, roedd Cyfrifiad 2011 yn cynnwys opsiwn i Sipsiwn a Theithwyr o dan y cwestiwn am grwpiau ethnig. Mae'r data ar gyfer y Sipsiwn a Theithwyr hynny i'w gweld yn y tabl isod.

Tabl 2: Nifer y Sipsiwn a'r Teithwyr mewn Awdurdodau Lleol 2011. Ffynhonnell: ONS; © Hawlfraint Y Goron

| Awdurdod Lleol | Cyfanswm Poblogaeth | Gwyn: Sipsiwn a Theithwyr |
|---|---|---|
| Conwy | 115,228 | 65 |

Tabl 3: CT0128 - Math o lety - Pob Aelwyd Personau â grŵp ethnig Gwyn: Sipsi neu Deithiwr Gwyddelig; Ffynhonnell: Cyfrifiad 2011 (27 Mawrth)

| | Cyfanswm: Math o lety | Tŷ neu fyngalo | Fflat, fflat deulawr neu randy | Carafán neu adeiledd symudol/dros dro arall |
|---|---|---|---|---|
| Conwy | 33 | 29 | 3 | 1 |

Yn ôl Cyfrifiad 2011, mae 65 person yng Nghonwy yn nodi eu bod yn Sipsi neu Deithiwr. Roedd 33 o aelwydydd Sipsiwn a Theithwyr, 32 ohonynt yn byw mewn eiddo brics a morter. Mae'n debygol bod y niferoedd hyn yn dangynrychiolaeth o'r niferoedd yn yr awdurdod lleol ar y pryd. Mae ymchwil mewn ardaloedd eraill yn awgrymu ei bod yn debygol bod rhai Sipsiwn neu Deithwyr yn amharod i ddatgan eu hunain. Mae'r ardaloedd sydd â'r dwysedd uchaf o Sipsiwn a Theithwyr sy'n byw mewn tai brics a morter i'w gweld ar y map yn atodiad 2 isod.

## Cyfrif Carafanau

Ffynhonnell ddata eilradd arall yw data Cyfrif Carafannau a gymerir o'r Cyfrifiad Carafannau Sipsiwn a Theithwyr a gynhelir bob dwy flynedd gan awdurdodau lleol Cymru ac a gesglir yn genedlaethol gan Lywodraeth Cymru. Mae'r awdurdod lleol a Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod y trefniant cyfrif bob dwy flynedd yn annigonol a bydd yn cael ei ddisodli gan gyfrifiad treigl o fis Ebrill 2016 ymlaen. Mae Conwy yn cofnodi niferoedd isel iawn o garafanau wrth ddefnyddio'r dull hwn.

Mae darlun llawer cliriach yn ymddangos o ddata gwersyllu di-awdurdod lleol. Yn y dyfodol bydd y data hwn yn gallu bwydo i mewn i ddull cyfrif treigl newydd ar gyfer y Set Data Cyfrif Carafannau a gesglir yn genedlaethol. Trafodir y tablau data lleol hyn fel rhan o'r adran ar Ofynion Tramwy isod

Tabl 4: Nifer y safleoedd yn ôl awdurdodiad ac awdurdod lleol 2014-2015; Ffynhonnell: Ystadegau Cymru © Hawlfraint Y Goron.

| | **Ion – 14** | | **Gorff – 14** | | **Ion – 15** | | **Gorff – 15** | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Safleoedd Awdurdodedi g (1) | Safleoedd Di-awdurdod (2) | Safleoedd Awdurdodedi g (1) | Safleoedd Di-awdurdod (2) | Safleoedd Awdurdodedi g (1) | Safleoedd Di-awdurdod (2) | Safleoedd Awdurdodedi g (1) | Safleoedd Di-awdurdod (2) |
| **Conwy** | 0 | 0 | 0 | 1 | 0 | 2 | 1 | 1 |

Tabl 5: Nifer y carafanau yn ôl awdurdodiad ac awdurdod lleol 2014-2015; Ffynhonnell: Ystadegau Cymru © Hawlfraint Y Goron.

| | **Gorff – 14** | | | **Ion – 15** | | | **Gorff – 15** | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Safleoedd awdurdodedig (gyda chaniatâd cynllunio) (2) | Safleoedd Di-awdurdod (heb ganiatâd cynllunio) (3) | . Pob carafan | Safleoedd awdurdodedig (gyda chaniatâd cynllunio) (2) | Safleoedd Di-awdurdod (heb ganiatâd cynllunio) (3) | . Pob carafan | Safleoedd awdurdodedig (gyda chaniatâd cynllunio) (2) | Safleoedd Di-awdurdod (heb ganiatâd cynllunio) (3) | . Pob carafan |
| **Conwy** | 0 | 5 | 5 | 0 | 3 | 3 | 2 | 2 | 4 |

Tabl 6: Nifer y lleiniau yn ôl awdurdod lleol; Ffynhonnell: Ystadegau Cymru © Hawlfraint Y Goron.

| | **Ion – 15** | **Gorff – 15** |
|---|---|---|

| | Preswyl wedi'i meddiannu (1) | Preswyl gwag (2) | Cyfanswm yr holl leiniau (5) | Preswl wedi'i meddiannu (1) | Preswyl gwag (2) | Cyfanswm yr holl leiniau (5) |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Conwy** | 0 | 0 | 0 | 2 | 0 | 2 |

O archwilio ffigyrau Gwynedd a Môn, gwyddom yn gyffredinol bod nifer fwy o garafanau yn cael eu cofnodi ym mis Gorffennaf na mis Ionawr. Mae hyn yn dangos natur fyrhoedlog y gymuned Sipsiwn a Theithwyr a'r tuedd i deithio i ogledd-orllewin Cymru yn ystod misoedd yr haf. Efallai ei bod yn bwysig nodi lleoliad porthladd Môr Iwerddon Caergybi. Er nad yw'r ffigyrau hyn yn dangos hynny, ymddengys bod Conwy a Sir Ddinbych yn fannau aros yn ystod y mudo tymhorol hwn. Ymddengys bod hynny'n wir yn arbennig yn achos teithwyr Gwyddelig sy'n aros yn ardaloedd Bae Cinmel, Conwy / Y Rhyl a Sir Ddinbych.

Mae safle preswyl o 4 llain yn cael ei ddatblygu yn Sir Conwy ar Ffordd Bangor, Conwy.

Yn y Cyfrifiad Carafannau a gynhelir bob dwy flynedd, nodwyd safleoedd di-awdurdod yng Nghonwy yn 2011 a 2014.

Tabl 7: Nifer y safleoedd yn ôl awdurdodiad; Ystadegau Cymru © Hawlfraint Y Goron

| | | Conwy |
|---|---|---|
| **Awdurdodedig** | **Ion – 10** | 0 |
| | **Gorff – 10** | - |
| | **Ion – 11** | 0 |
| | **Gorff – 11** | - |
| | **Ion – 12** | 0 |
| | **Gorff – 12** | 0 |
| | **Ion – 13** | 0 |
| | **Gorff – 13** | 0 |
| | **Ion – 14** | 0 |
| | **Gorff – 14** | 0 |
| **Di-awdurdod** | **Ion – 10** | 0 |
| | **Gorff – 10** | - |
| | **Ion – 11** | 1 |
| | **Gorff – 11** | - |
| | **Ion – 12** | 0 |
| | **Gorff – 12** | 0 |
| | **Ion – 13** | 0 |
| | **Gorff – 13** | 0 |
| | **Ion – 14** | 0 |

| | | |
|---|---|---|
| | **Gorff – 14** | 1 |

## Pennod Tri: Methodoleg

Er bod yr adroddiad hwn yn ystyried yr anghenion llety yn Sir Conwy, cytunwyd ar fethodoleg yr Asesiad o Anghenion Llety a chasglu data ar y cyd rhwng Conwy a Sir Ddinbych, gan gynnwys grŵp llywio ar y cyd a chydgomisiynu gwaith maes.

Mae Llywodraeth Cymru yn hyrwyddo'r angen am grŵp llywio "*i sicrhau bod yr holl arbenigedd sydd ar gael yn bwydo i mewn i'r broses er mwyn cynhyrchu'r asesiad mwyaf effeithiol posibl. Mae'n bwysig fod y rhanddeiliaid allweddol yn ymwybodol ac yn gysylltiedig yn gynnar. Yn y bôn, dylai'r grŵp gynnwys y rheiny sydd wedi sefydlu rhwydweithiau yn y cymunedau hyn a'r rheiny sy'n atebol i ddiwallu anghenion y cymunedau hyn o ran darparu llety.*

*Gallai'r rhain gynnwys cynrychiolwyr o:*

- *Adrannau Tai a Chynllunio Awdurdodau Lleol;*
- *Cymuned leol Sipsiwn a Theithwyr;*
- *sefydliadau sy'n gweithio i gefnogi cymunedau Sipsiwn a Theithwyr;*
- *gwasanaethau perthnasol eraill megis gwasanaethau addysg i deithwyr, swyddogion cyswllt Sipsiwn a Theithwyr neu swyddogion o'r bwrdd iechyd sy'n cydweithio'n agos â chymunedau Sipsiwn a Theithwyr ac sydd o bosibl â'r wybodaeth orau am gymunedau yn yr ardal; a*
- *Cynghorydd Awdurdod Lleol, er enghraifft, deiliad y portffolio Cydraddoldeb neu Gynllunio.*

Am resymau ymarferol, nid yw'r fethodoleg ar gyfer yr asesiad hwn wedi dilyn y canllawiau uchod gan Lywodraeth Cymru mewn dwy ffordd. Yn gyntaf, oherwydd terfynau amser a'r angen i ymgysylltu ag ymgynghorwyr mewn modd amserol er mwyn cynnal arolygon yn ystod y cyfnod teithio, ni lwyddodd y Grŵp Llywio i gyfarfod nes bo'r asesiad drafft ar gael i'w drafod.

Teimla swyddogion yn y ddwy Sir bod llawer o wybodaeth wedi'i chasglu am gymunedau yn ardal yr astudiaeth drwy hyrwyddo a chasglu gwybodaeth gan asiantaethau partner megis iechyd ac addysg (gweler isod). Er na chynhaliwyd cyfarfod ffurfiol cyn y gwaith maes, ni theimlir bod hyn wedi effeithio ar lefel y wybodaeth sydd ar gael.

Bu'r swyddogion yn cysylltu'n rhanbarthol trwy Fforwm Llety Sipsiwn a Theithwyr Gogledd Cymru. Mae gweithgor o Swyddogion Tai a Chynllunio o bob Awdurdod yn cyfarfod yn rheolaidd i adolygu cynnydd.

Yn ail, mae canllawiau Llywodraeth Cymru yn galw ar aelodau'r Gymuned Sipsiwn a Theithwyr i fod yn aelodau o'r grŵp llywio "*er mwyn gwrthddadlau'r syniad bod yr astudiaeth yn cael ei chynnal 'i' gymunedau Sipsiwn a Theithwyr yn hytrach na 'gyda' nhw..... [a] darparu safbwynt hanfodol ar batrymau teithio cymunedau a'r angen i weithio ar sail ranbarthol (neu beidio).*

Gyda sylfaen boblogaeth mor fach i ymgysylltu â hi, daeth yn amlwg mai'r un unigolion yn y gymuned a oedd yn barod i ymuno â'r grŵp llywio oedd y bobl a oedd yn mynegi'r angen am lety. Penderfynodd y grŵp y byddai gwrthdaro buddiannau wrth drafod ffigyrau anghenion cyffredinol ac unrhyw faterion yn ymwneud â chysylltiad lleol neu atgasedd diwylliannol. Cytunwyd y byddai'n fwy priodol i aelodau'r gymuned fynychu ar ôl i'r asesiad gael ei gadarnhau a newidiodd y grŵp llywio ei ffocws i ddarpariaeth.

Gwahoddwyd cynrychiolydd allweddol o'r gymuned Sipsiwn a Theithwyr i fynychu ond gwrthodwyd y gwahoddiad.

Roedd 'Unity' yn bresennol yn y grwp llywio i ddarparu gwybodaeth gyffredinol am ymwybyddiaeth ddiwylliannol.

**Cyfansoddiad grŵp llywio'r prosiect**

| **Enw** | **Yn Cynrychioli:** |
|---|---|
| **Y Cynghorydd Barbara Smith** | Cyngor Sir Ddinbych – Arweinydd Moderneiddio a Thai |
| **Y Cynghorydd Phil Edwards** | CBS Conwy – Arweinydd Tai a Gofal Cymdeithasol |
| **Angela Loftus** | Cyngor Sir Ddinbych – Polisi Cynllunio a Strategaeth Dai |
| **James Harland** | CBS Conwy – Polisi Cynllunio |
| **Bryn Kyffin** | CBS Conwy – Polisi Cynllunio |
| **Sue Lewis** | Cyngor Sir Ddinbych –Strategaeth Dai |
| **Wendy Dearden** | CBS Conwy - Tai |
| **Bryn Hall** | Prosiect Unity |
| **Mohammed Dhalech** | Rhwydwaith Cydraddoldeb Hiliol Gogledd Cymru (gwahoddwyd) |
| **Wayne Wheatley** | Cyngor Sir Ddinbych – Addysg (gwahoddwyd) |
| **Noella Roberts** | CBS Conwy – Addysg (gwahoddwyd) |
| **Aelodau o gymuned deithio** | Gwahoddwyd |
| **Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr** | Gwahoddwyd |

## Ymgysylltu a Hyrwyddo'r Astudiaeth

Yn anffodus ni lwyddodd yr Asesiad hwn i ddefnyddio data personol o Asesiad 2013 i ddod i gysylltiad â'r 9 aelwyd a gyfwelwyd yn y gorffennol gan nad oedd hyn wedi'i ddarparu i'r sefydliadau comisiynu.

Nid oes data personol ar gael i'r 34 aelwyd a nodwyd yng Nghyfrifiad 2011 chwaith.

Gan hynny mae’r Asesiad hwn wedi gorfod dechrau’r broses ymgysylltu o’r egwyddorion cyntaf trwy hyrwyddo’r asesiad a gwahodd aelwydydd â diddordeb i gysylltu.

Mae’r pwyntiau bwled isod yn amlinellu'r gweithgareddau hyrwyddo ac ymgysylltu a wnaethpwyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy mewn partneriaeth â Chyngor Sir Ddinbych, Y Gwasanaethau Ymchwil Barn i sicrhau bod y gymuned Deithiol yn gwybod am yr Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr ac fe’u hanogwyd i gymryd rhan.

1. Hysbysebwyd yr Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr ar wefannau Cyngor Sir Ddinbych a Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy.
    a. Gwefan CBSC - http://intranet/doc.asp?cat=10719&doc=33172&Language=1
    b. Gwefan Cyngor Sir Ddinbych - https://www.denbighshire.gov.uk/cy/resident/home.aspx

2. Defnyddiwyd Cyfryngau Cymdeithasol i hyrwyddo cyfranogiad yn yr Asesiad ei hun a hefyd i hyrwyddo’r digwyddiad ymgysylltu cysylltiedig.
    a. 25/8/15 tudalennau Facebook y ddau awdurdod lleol – A oes angen llain neu fuarth ar eich teulu yng Nghonwy neu Sir Ddinbych?
    b. 1/10/15 a 13/10/15 Twitter CBSC – A oes angen llain neu fuarth ar eich teulu yng Nghonwy neu Sir Ddinbych?
    c. 13/10/14 – neges Twitter CBSC yn hysbysebu'r arolwg a'r sesiwn galw heibio
    d. 15/10/15 – neges Twitter Rhwydwaith Cydraddoldeb Rhanbarthol Gogledd Cymru yn hysbysebu'r arolwg a'r sesiwn galw heibio
    e. 15/10/15 – neges ar dudalen Facebook Ffrindiau Teuluoedd a Theithwyr yn hysbysebu’r arolwg a’r sesiwn galw heibio
    f. Hysbyseb wedi’i roi ar dudalennau Facebook *Travellers Times*.

3. Hysbysebu mewn cyhoeddiadau perthnasol
    a. Hysbysebion wedi’u gosod yn *Travellers Times* (argraffedig) ac ar wefan *Travellers Times*
    b. Hysbysebion wedi’u gosod yn *World’s Fair*
    c. Prif erthygl yn *World’s Fair* wedi’i hysgrifennu gan gydweithwyr yn Ynys Môn a'i gosod ar ran grŵp rhanbarthol gogledd Cymru i hyrwyddo'r adolygiadau a wneir ledled gogledd Cymru.

4. Dulliau gwaith uniongyrchol gydag asiantaethau cymorth a grwpiau cymunedol perthnasol. Anfonwyd llythyrau at Eglwysi Catholig ledled ardaloedd y ddau awdurdod lleol yn hysbysebu’r arolwg ac yn gofyn iddynt sicrhau bod unrhyw aelodau o gymunedau Sipsiwn neu

Deithwyr yn y gynulleidfa yn cael gwybod am yr arolwg a'u rhoi mewn cysylltiad â'r awdurdod lleol os oeddent yn dymuno. Roedd y rhain yn cynnwys:-

- Eglwys Babyddol St Michael, Conwy
- Eglwys Babyddol 'Our Lady Star of the Sea', Llandudno
- Eglwys Babyddol St Joseff, Bae Colwyn
- Eglwys Babyddol 'Our Lady of The Assumption', Y Rhyl
- St Therese of Lisieux, Abergele
- Christ the King, Bae Cinmel
- Esgobaeth Wrecsam, Wrecsam

Anfonwyd llythyr tebyg i Gymorth Cynllunio yn gofyn iddynt hysbysebu'r arolwg i unrhyw un yr oeddent yn gweithio â nhw o gymunedau Sipsiwn neu Deithwyr.

Y prif ddulliau uniongyrchol o gysylltu ag asiantaethau cymorth oedd trwy e-bost. Gofynnwyd i'r asiantaethau canlynol hyrwyddo'r arolwg a'r digwyddiad galw heibio gyda'u haelodau a'u cysylltiadau. Gofynnwyd iddynt hefyd drosglwyddo unrhyw wybodaeth ychwanegol y credent y dylid ei hystyried i'r awdurdodau lleol.

- 'info@gtwales.org.uk'; (**Sipsiwn a Theithwyr Cymru**)
- 'travellingahead@savethechildren.org.uk'; (**Travelling Ahead**)
- 'unity@pembrokeshire.gov.uk'; (**Unity**)
- 'isaacblake@romaniarts.co.uk'; (**Cwmni Diwylliant a Chelfyddydau Romani**)
- 'lb2@smt.org.uk'; (**Prosiectau 'Bridges'**)
- 'leesashowmensguild@yahoo.com'; (**Urdd Siewmyn Prydain Fawr**)
- 'info@travellersschool.org.uk'; (**Elusen Ysgolion Teithwyr**)
- 'info@travellermovement.org.uk'; (**Mudiad y Teithwyr**)
- 'fft' <fft@gypsy-traveller.org>; (**Ffrindiau, Teuluoedd a Theithwyr**)
- 'natglg@outlook.com'; (**Ffederasiwn Genedlaethol Grwpiau Cyswllt Sipsiwn**)
- 'info@nationalgypsytravellerfederation.org'; (**Ffederasiwn Genedlaethol Grwpiau Cyswllt Sipsiwn**)
- 'info@gypsy-association.com'; (**Y Cyngor Sipsiwn**)
- 'info@romasupportgroup.org.uk' (**Grŵp Cymorth Roma**)

Er bod ymatebion llawn gwybodaeth wedi cael eu derbyn gan Sipsiwn a Theithwyr Cymru a *Travelling Ahead*, ni dderbyniwyd gwybodaeth am aelwydydd Sipsiwn a Theithwyr yn y Sir. Efallai bod hyn yn adlewyrchu'r diffyg asiantaethau cymorth i Sipsiwn a Theithwyr sydd

wedi bod yn weithredol yng ngogledd Cymru yn y gorffennol. Cydnabyddir bod gan Brosiect Unity bellach Swyddog Cymorth / Ymgysylltu yng ngogledd Cymru.

Roedd *Travelling Ahead* yn cydnabod bod cyhoeddusrwydd ynglŷn â datblygiad y safle yng Nghonwy a gwrthwynebiad gan rai aelodau etholedig ac aelodau o'r gymuned o bosibl yn ei gwneud yn anoddach ymgysylltu mewn modd positif yn y Sir. Efallai nad yw Sipsiwn a Theithwyr yn teimlo'n hyderus y bydd y wybodaeth yn cael ei defnyddio er eu lles.

5. Dosbarthwyd taflenni cyhoeddusrwydd ar gyfer y sesiwn galw heibio ac i annog cyfranogiad yn yr asesiad i'r lleoliadau cymunedol canlynol yn ardaloedd y ddau awdurdod lleol:
    a. Taflenni i wasanaethau Addysg CBSC a Sir Ddinbych i'w rhoi i deuluoedd â phlant mewn ysgolion awdurdodau lleol
    b. Llyfrgelloedd
    c. Canolfannau hamdden
    d. Tai golchi
    e. Meddygfeydd ac ysbytai
    f. Hefyd Co-operative Abergele
    g. Swyddfa'r Post Abergele
    h. Swyddfa'r Post Bae Cinmel
    i. Jacko's Odds and Ends
    j. Canolfan y Foryd
    k. Swyddfa'r Post Rhuthun
    l. Neuadd y Dref, Y Rhyl
    m. Swyddfa Brighton Road Cyngor Sir Ddinbych (Cefnogi Pobl)
    n. Fferyllfa Westminster Park Pharmacy Ltd

6. Sesiwn galw heibio Amlasiantaeth – ar 20/10/15 cynhaliwyd sesiynau galw heibio trwy gydol y dydd yng Nghanolfan Gymunedol Bae Cinmel (yr ardal sydd wedi gweld y nifer fwyaf o wersylloedd diawdurdod dros y blynyddoedd diwethaf). Roedd y digwyddiad yn cynnwys cyfranogwyr o Rwydwaith Cydraddoldeb Rhanbarthol Gogledd Cymru (NWREN), Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaldr, a'r ddau awdurdod lleol; Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy a Chyngor Sir Ddinbych. Mynychodd dwy aelwyd a oedd heb eu nodi yn y gorffennol y sesiwn galw heibio ac aethant ymlaen i gymryd rhan yn yr asesiad, gan nodi eu bod yn dymuno cael llety yn Sir Ddinbych. Cydnabyddir y byddai wedi bod yn bosibl cael gwell presenoldeb yn y sesiwn galw heibio pe bai gwell rhybudd wedi cael ei roi o flaen llaw.

7. Ceisiodd yr asesiad hefyd ddefnyddio ffynonellau data eraill a oedd ar gael i'r awdurdod lleol ac i bartneriaid tai.

- Data tai – cysylltwyd â phob cymdeithas dai i nodi tenantiaid Sipsiwn a Theithwyr ac fe archwiliwyd data cydraddoldeb ar y cofrestrau tai. Cafodd rhestrau aros tai y ddau Gyngor eu harchwilio am ymgeiswyr a oedd yn nodi eu bod yn Sipsiwn a Theithwyr. Nodwyd un ymgeisydd/tenant yn Sir Ddinbych ac fe'i gwahoddwyd i gymryd rhan ond ni chafwyd ymateb.

- Data cynllunio – nid oes unrhyw geisiadau cynllunio wedi bod am safleoedd preifat yn y naill Sir na'r llall. Mae LlC wedi cysylltu â Chonwy ar wahân yn holi pam nad oedd achos gorfodi cynllunio wedi'i gynnwys yn yr asesiad. Er yr ymddengys bod yr achos yn deulu Teithiol, mae ymholiadau pellach wedi datgelu nad oedd yr aelwyd wedi nodi ei hun fel Sipsiwn a Theithwyr pan gysylltodd Swyddogion Gorfodi Cynllunio â nhw. Mae hyn yn amlygu'r anhawster allweddol wrth nodi aelodau o'r gymuned ar gyfer yr asesiad os ydynt yn dewis peidio â gwneud eu hunain yn hysbys i wasanaethau'r Cyngor.

- Data addysg – roedd rhannu gwybodaeth rhwng adrannau addysg a thai yn broblem i Gonwy. Dosbarthodd cydweithwyr addysg daflenni gwybodaeth i aelwydydd hysbys. Yn Sir Ddinbych cafodd cyfeiriadau eu darparu ac anfonwyd gwybodaeth (gan gynnwys taflen) ond ni chafwyd unrhyw ymateb.

8. Yn olaf gwnaethpwyd nifer o gysylltiadau uniongyrchol ag unigolion o gymunedau Sipsiwn a Theithwyr a oedd yn hysbys i'r awdurdodau lleol y teimlwn a fyddai o bosibl â diddordeb yn yr arolwg.

## Methodoleg yr Astudiaeth

Roedd yr astudiaeth yn cynnwys casglu data eilradd o'r Cyfrifiad, Awdurdod Lleol, gwasanaethau Addysg, Iechyd a phartneriaid eraill (a drafodir uchod) a chasglu data cynradd o'r newydd. Cafodd y data cynradd newydd ei gasglu, trwy gyd-drefniant rhwng Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy a Chyngor Sir Ddinbych, ar ffurf Holiadur Cyffredinol, a fabwysiadwyd heb ei ddiwygio o Ganllaw Llywodraeth Cymru[2].

Defnyddiwyd trefn samplo fwriadus, sef dull samplo sy'n briodol wrth dargedu grŵp cymdeithasol penodol a phan nad yw cymesuredd yn brif bryder.

Yn ogystal â chasglu data cynradd trwy Holiadur Cyffredinol cafwyd mewnwelediad pellach o gyfweliadau ychwanegol. Cynhaliwyd y rhain gyda

[2] Llywodraeth Cymru, Cynnal Asesiadau Llety Sipsiwn a Theithwyr, Mai 2015

Siewmyn a oedd yn byw yn ardaloedd Conwy a Sir Ddinbych a thu allan i'r ardaloedd hyn, a ymatebodd i hysbysebion yn *World*'s *Fair* ond nad oeddent yn dymuno cymryd rhan yn yr Holiadur Cyffredinol.

**Pwy a gynhaliodd yr astudiaeth?**

Cynhaliwyd gwaith maes a gwaith casglu data i'r arolwg gan Wasanaethau Ymchwil Barn (ORS) ar ran Cyngor Sir Ddinbych a Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy. Dewiswyd grŵp annibynnol, yn hytrach na'r awdurdod lleol, gan y teimlwyd y byddai'n gallu ymgysylltu ag ystod ehangach o aelodau o'r gymuned gan gynnwys y rheiny sydd o bosibl ag agweddau negyddol tuag at awdurdodau lleol ac asiantaethau statudol eraill neu sydd wedi cael profiadau negyddol wrth ymdrin â nhw yn y gorffennol. Cynhaliwyd proses gaffael gystadleuol i ddyfarnu'r contract a dewiswyd ORS.

Mae gan ORS lwyddiant blaenorol o ymgysylltu yn arbennig gyda Chymuned Sipsiwn a Theithwyr Cymru. Mae ganddynt brofiad o gynnal Asesiadau o Anghenion Sipsiwn a Theithwyr yn y gorffennol ac ymgysylltwyd â nhw i gynnal nifer o asesiadau ledled Cymru y tro hwn. Gan hynny maent mewn sefyllfa dda i ddeall y cymunedau yng Nghymru a'u patrymau teithio.

Cwblhawyd dadansoddiad o'r data gan Dîm Ymchwil a Deallusrwydd Cyngor Sir Ddinbych.

**Y dyddiadau yr ymgymerwyd â'r arolwg.**

| Camau'r Prosiect a Cherrig Milltir Allweddol | Awst – 15 | Medi – 15 | Hyd – 15 | Tach – 15 | Rhag – 15 | Ion – 16 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Penodi i Gontract | ■ | | | | | |
| Cyhoeddusrwydd Gwaith Maes | ■ | | | | | |
| Cyfweliadau safle | | ■ | ■ | | | |
| Cyfweliadau Brics a Morter | | ■ | ■ | | | |
| Prosesu Data | | | ■ | | | |
| Cyflwyno Data Amrwd | | | | ■ | | |
| Dadansoddi Data | | | | ■ | ■ | |
| Cyfarfod gyda Grwp Llywio | | | | | | ■ |
| Cynhyrchu Adroddiad Drafft | | | | ■ | ■ | ■ |

**Cydymffurfio â rhestr wirio ymgysylltu.**

| | | |
|---|---|---|
| 1. | Ymweld â phob aelwyd Sipsiwn a Theithwyr a nodwyd yn ystod y broses dadansoddi data hyd at 3 gwaith, os oes angen. | Ymwelwyd â'r holl deuluoedd a nodwyd |
| 2. | Cyhoeddi manylion y broses Asesu Anghenion SaTh, gan gynnwys manylion cyswllt i ganiatáu i aelodau o'r gymuned wneud cais am gyfweliad, ar wefan yr Awdurdod lleol, gwefan *Travellers' Times* a chyhoeddiad *World's Fair*. | Cyhoeddwyd manylion gan gynnwys ar y wefan, *Travellers Times* a *World's Fair*. Gweler y manylion uchod |
| 3. | Ymgynghori â sefydliadau cymorth cymunedol perthnasol megis y rheiny yn Atodiad 1. | Cysylltu'n uniongyrchol ag asiantaethau cymorth a grwpiau cymunedol perthnasol. Gweler y manylion uchod |
| 4. | Creu rhestr aros ar gyfer lleiniau a thai yr Awdurdod Lleol, sy'n hygyrch ac sy'n cael ei rhoi i aelodau'r gymuned. | Mae Conwy yn datblygu polisi gosod lleol a rhestr aros ar gyfer Safle Ffordd Bangor. |
| 5. | Ceisio cynnwys Sipsiwn a Theithwyr ar grŵp llywio prosiect Asesiad o Anghenion SaTh. | Nid oedd unrhyw un yn cynrychioli Sipsiwn a Theithwyr ar y Grŵp Llywio cyntaf oherwydd gwrthdaro buddiannau ac roedd aelod arall o'r gymuned yn gwrthod mynychu. Mynychodd Unity gyfarfod y grŵp llywio. Gwneir pob ymdrech i gynnwys cynrychiolydd mewn cyfarfodydd yn y dyfodol. Mae manylion pellach ar gael ar ddechrau Pennod 3 - Methodoleg |
| 6. | Sicrhau bod manylion cyswllt a ddarparwyd gan aelodau o'r gymuned i'r Awdurdod Lleol ym mhroses yr arolwg yn cael eu olrhain a bod eu hanghenion yn cael eu hasesu. | Ymwelwyd â'r holl deuluoedd a nodwyd. |
| 7. | Ystyried cynnal digwyddiadau gwybodaeth Asesiad o Anghenion SaTh ar safleoedd (neu gerllaw) i esbonio pam y dylai aelodau o'r gymuned gymryd rhan ac annog preswylwyr y safle i ddod â phobl | Sesiwn galw heibio amlasiantaeth wedi'i chynnal trwy gydol y dydd ar 20/10/15 yng Nghanolfan Gymunedol Bae Cinmel. Gwelwyd y nifer fwyaf o wersylloedd di-awdurdod yn yr ardal hon dros y blynyddoedd diwethaf. |

| | | |
|---|---|---|
| | eraill gyda nhw sydd o bosibl yn anhysbys i'r Awdurdod Lleol. | |

## Pennod Pedwar: Canfyddiadau'r Arolwg

Yn dilyn yr ymarfer ymgysylltu a ddisgrifiwyd yn yr adran methodoleg, nodwyd 5 aelwyd i'w cynnwys yng ngwaith maes Conwy.

Tabl 8 – Log Cyfweliadau

| Crynodeb o Gyfweliadau | Nifer yr Aelwydydd | % |
|---|---|---|
| Cyfweliadau a geisiwyd | 5 | 100 |
| Cyfweliadau a gwblhawyd | 5 | 100 |
| Lleiniau Gwag | 0 | 0 |
| I ffwrdd | 0 | 0 |
| Pobl nad ydynt yn Deithwyr | 0 | 0 |
| Gwrthodiadau | 0 | 0 |

Er gwaethaf ymdrechion i hyrwyddo'r Asesiad ac ymgysylltu ag aelwydydd, mae'r lefelau cyfweld hyn yn isel o'u cymharu ag Asesiad o Anghenion SaTh blaenorol lle cyfwelwyd â 9 aelwyd yn y Sir ac mae Cyfrifiad 2011 yn awgrymu bod 33 o aelwydydd yn byw yn yr ardal.

Mae log cyfweliadau mwy manwl ar gael yn Atodiad 6.

Ar adeg yr Asesiad, roedd 3 o'r 5 aelwyd yn byw ar wersyll awdurdodedig/goddefol tra'r oeddent yn aros i safle Lôn Gefn Bangor gael ei gwblhau. Roedd pedwerydd aelwyd yn byw ar safle preswyl y tu allan i'r ardal ond yn dymuno dychwelyd i Gonwy oherwydd cysylltiadau teuluol. Cynhaliwyd eglurhad pellach gyda'r aelwydydd hyn yn ystod y broses o gadarnhau'r asesiad.

Roedd aelwyd arall yn byw ar safle preifat yn Sir y Fflint, ond yn datgan eu bod yn dymuno byw yng Nghonwy. Yn y gorffennol roeddent wedi byw yn Sir Ddinbych ac roedd ganddynt gysylltiadau teuluol yno. Gan nad oedd unrhyw dystiolaeth i awgrymu cysylltiad lleol â Sir Conwy, atgyfeiriwyd yr achos hwn at Sir y Fflint i'w ystyried ac mae hefyd yn cael ei ystyried gan Sir Ddinbych. Gan hynny nid yw'r aelwyd hon wedi cael ei hasesu fel un sydd angen llety yn Sir Conwy ac mae wedi'i heithrio o'r dadansoddiad canlynol.

Gofynnwyd i bob aelwyd a oeddent yn gwybod am aelodau eraill o'r gymuned Deithio a fyddai'n dymuno cymryd rhan yn asesiad Conwy. Trwy'r broses hon nodwyd un aelod o deulu nad yw'n byw yng Nghonwy ar hyn o bryd ond a hoffai ymuno â'r rhestr aros ar gyfer safle Ffordd Bangor pan fyddai'n weithredol yn y dyfodol. Ni chwblhawyd arolwg gyda'r unigolyn hwn, ond dywedodd y teulu mai angen posibl am lain yng Nghonwy yn y dyfodol fyddai hwn yn ac nid angen pendant am lety. Er nad oes manylion penodol ar gael ar gyfer yr unigolyn hwn, cynhwysir ei ddymuniad i gael llain breswyl yn yr adran "aelwydydd newydd i gyrraedd" yn y cyfrifiad.

### Tabl 9 – Nifer yr aelwydydd wedi'u crynhoi yn ôl math o lety

| Cyfrif A1 Ble ydych chi'n byw nawr? | |
|---|---|
| | Conwy |
| Brics a Morter – Rhentu Preifat | |
| Safle preswyl Awdurdod Lleol ("Cyngor") | 1 |
| Gwersyll Di-awdurdod | 3 |
| Cyfanswm | 4 |

Roedd pob aelwyd yn nodi eu bod yn Sipsiwn Romani.

### Tabl 10 – Nifer yr aelwydydd wedi'u crynhoi yn ôl math o lety

| Cyfrif A1 Ble ydych chi'n byw nawr? | | | |
|---|---|---|---|
| | Cyplau | Cyplau gyda phlant dibynnol | Cyfanswm |
| Safle preswyl Awdurdod Lleol ("Cyngor") | 1 | | 1 |
| Gwersyll Di-awdurdod[3] | 2 | 1 | 3 |
| Cyfanswm | 3 | 1 | 4 |

### Proffil demograffig o'r boblogaeth

Mae'r aelwydydd a gynhwysir yn yr Asesiad hwn yn cynnwys 9 unigolyn.

### Tabl 11 – Oed a Rhyw (Cyfrif)

| | 18 oed a hŷn? | | | Dan 18 oed | | | Pob un |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Gwryw | Benyw | Cyfanswm | Gwryw | Benyw | Cyfanswm | Cyfanswm |
| Conwy | 4 | 4 | 8 | 1 | 0 | 1 | 9 |

### Addasrwydd y llety presennol

Mae'r adran hon yn ymdrin â chwestiynau am foddhad â llety, hyd arhosiad a fwriedir, gwelliannau gofynnol a gorlenwi yn y ddarpariaeth lety bresennol.

Datganodd bob un o'r rhai a gyfwelwyd eu bod yn anfodlon â'u llety presennol (A2)

Dywedodd tair aelwyd sy'n byw ar safle di-awdurdod yng Nghonwy (Lôn Gefn Bangor) eu bod yn dymuno gweld safle awdurdodedig parhaol yn cael ei ddatblygu yng Nghonwy. Soniodd un aelwyd yn arbennig am safle Ffordd Bangor a dywedodd bod 'caniatâd cynllunio wedi'i roi' yn cael ei restru fel gwelliant gofynnol pan ofynnwyd y cwestiwn 'A fyddech yn aros yn hirach pe bai newidiadau neu welliannau yn cael eu gwneud i'ch llety presennol?'. (A6). Fe wnaethant ddatgan hefyd nad oeddent yn bwriadu symud pan ofynnwyd

iddynt ‘Am faint ydych chi’n meddwl y byddwch yn aros yma?’ (A7). Datganodd un arall o'r aelwydydd hyn mai dim ond teithio trwodd oedden nhw ac fe wrthodont ateb cwestiynau A6 ac A7. Gwrthododd y ddwy aelwyd arall ateb A7 er bod un o'r rhain wedi datgan nad oeddent yn gwybod am ba mor hir yr oeddent yn bwriadu aros yn eu llety presennol.

Datganodd dwy aelwyd yng Nghonwy nad oedd digon o ardaloedd cysgu i bob un preswylydd (B2). Fodd bynnag, yn y ddau achos mae gwybodaeth a roddwyd am gyfansoddiad yr aelwyd (B1) yn dangos bod y ddwy aelwyd yn aelwydydd dau berson ac mae’r ddau berson ym mhob achos yn cael eu disgrifio fel partneriaid. Credir bod yr atebion hyn yn dangos natur y gwersyll goddefol ar Ffordd Bangor ar adeg yr asesiad a'r ffaith nad oedd lle i fwy o garafanau.

### Tabl 14 – Boddhad â Ble ydych yn byw nawr?

| Boddhad â Ble ydych yn byw nawr? | | |
|---|---|---|
| | Ie | Na |
| Safle preswyl Awdurdod Lleol (“Cyngor”) | | 1 |
| Gwersyll Di-awdurdod | | 3 |
| Cyfanswm | 0 | 4 |

### Tabl 15 – Am faint ydych chi’n meddwl aros yma?

| Am faint ydych chi’n meddwl aros yma? | |
|---|---|
| | Cyfanswm |
| Nid ydym yn bwriadu symud | 1 |
| Dydw i ddim yn gwybod. | 1 |
| Gwrthodwyd | 2 |
| Cyfanswm | 4 |

### Tabl 16 – Os ydych yn byw mewn carafán, a oes digon o ardaloedd cysgu i bob preswylydd?

| Os ydych yn byw mewn carafán, a oes digon o ardaloedd cysgu i bob preswylydd? | |
|---|---|
| | Cyfanswm |
| Nac oes | 2 |
| Heb ofyn | |
| Oes | 2 |
| Cyfanswm | 4 |

## Dyheadau o ran llety

Mae’r adran hon yn ychwanegu at yr un uchod ac yn edrych ar ddyheadau o ran llety gan gymryd bwriadau a ddatganwyd i ystyriaeth, rhesymau dros fod yn anfodlon â threfniadau presennol.

Tabl 17 – Rhesymau dros fod yn anfodlon â llety presennol

| | **Cyfanswm** |
|---|---:|
| **Dim ymateb.** | 2 |
| **GWELLA’R SAFLE. MYND TRWY GANIATÂD CYNLLUNIO** | 1 |
| **SAFLE NEWYDD YN CAEL EI ADEILADU.** | 1 |
| **Cyfanswm** | **4** |

## Twf aelwydydd

Nid oes disgwyl i aelwydydd newydd ffurfio dros y 2-5 mlynedd nesaf. Nid oes disgwyl i deuluoedd dyfu ymhellach (o fewn y teuluoedd a gyfwelwyd) sy'n debygol o arwain at ffurfio aelwydydd newydd yn ystod y cyfnod. Mae twf aelwydydd yn seiliedig ar ymatebion a roddwyd gan y rhai a gyfwelwyd. (D1 a D2).

Dyma'r achos ar gyfer cyfnod y CDLl. Mae CDLl presennol Conwy yn rhedeg o 2007 i 2022.

## Gwybodaeth ychwanegol gan Siewmyn sydd â diddordeb yn yr ardal

Cysylltodd nifer o aelwydydd â'r ddau Awdurdod mewn ymateb i'n hysbyseb yn *World*'s *Fair*. Nid oedd unrhyw un o'r aelwydydd hyn yn dymuno cwblhau'r arolwg. Er hynny, roedd gan bob aelwyd ddiddordeb mewn busnes yn yr ardal.

Roedd y rhain yn cynnwys:-

- Aelwyd sy'n byw yn Bolton ac sy'n bwriadu prynu arcêd ddifyrion yn Nhowyn ac yn dymuno dod o hyd i dir preifat i'w brynu ar gyfer yr aelwyd ac offer. Mynegodd yr aelwyd ei bod yn dymuno trafod argaeledd tir addas gyda'r awdurdod lleol ac fe'i cyfeiriwyd at yr adran berthnasol.

- Fe wnaeth aelwyd sy'n byw yn Manceinion Fwyaf, ond sy'n gweithio ar gylched wyliau a sioeau yng ngogledd Cymru ac yn storio eu hoffer yn Rhuddlan, ymateb i'r hysbyseb yn *World's Fair* gan fynegi diddordeb mewn llety yng ngogledd Cymru ond nid yw wedi cymryd rhan yn yr arolwg ac ni wyddom beth yw ei gofynion a'i dewisiadau manwl. Ar ôl gwneud ymholiadau dilynol canfuwyd mai dim ond mewn cyfleuster storio yr oedd gan yr aelwyd ddiddordeb.

- Mynegodd aelwyd sy'n byw'n hapus mewn llety brics a morter yn y Rhyl ddiddordeb mewn buarth i storio offer ffair a gofynnont a fyddai modd trafod argaeledd tir addas gyda'r awdurdod lleol ac fe'u cyfeiriwyd at yr adran berthnasol.
- Gofynnodd aelwyd a oedd yn chwilio am fuarth i storio offer sioe am gael cysylltu â'r awdurdod lleol i drafod argaeledd tir addas ac fe'i cyfeiriwyd at yr adran berthnasol.

  Ni chredwyd y byddai'n briodol cynnwys yr aelwydydd hyn yn y cyfrifiadau asesu llety.

Ers i waith maes yr asesiad gael ei gwblhau mae Sir Conwy hefyd wedi derbyn Ymholiad Cynllunio gan Siewmon sy’n dymuno sefydlu safle preifat yn y Sir ar gyfer hyd at 10 o leiniau preswyl. Ni chymerodd yr aelwydydd ran yn yr asesiad gan nad oeddent wedi cael eu hysbysu o’r asesiad gan Urdd y Siewmyn. Roedd amseriad y gwaith maes yn gwrthdaro â chyfnod prysur i’w busnes hefyd. Ar ôl cael trafodaeth â Llywodraeth Cymru, caiff asesiad o anghenion llety’r aelwydydd hyn ei gynnal ar wahân i’r prif asesiad llety SaTh.

## Pennod Pump: Asesu anghenion llety

| Cyflenwad Preswyl Presennol | Nifer y lleiniau |
|---|---|
| A. Lleiniau'r Awdurdod Lleol a feddiannir | 0 |
| B. Lleiniau preifat awdurdodedig a feddiannir | 0 |
| Cyfanswm | 0 |

| Cyflenwad preswyl a gynllunnir | Nifer y lleiniau |
|---|---|
| C. Lleiniau Awdurdod Lleol gwag a lleiniau preifat gwag sydd ar gael | 0 |
| D. Lleiniau y disgwylir iddynt ddod yn wag yn y dyfodol agos (gweler nodyn 1) | 0 |
| E. Lleiniau newydd Awdurdod Lleol a phreifat gyda chaniatâd cynllunio | 4 |
| Cyfanswm | 4 |

| Galw presennol am breswylfeydd | Galw am leiniau |
|---|---|
| F. Gwersylloedd di-awdurdod | 3 |
| G. datblygiad di-awdurdod | 0 |
| H. Lleiniau gorlawn (gweler nodyn 2) | 0 |
| I. Tai confensiynol (gweler nodyn 3) | 0 |
| J. Aelwydydd newydd i gyrraedd (gweler nodyn 4) | 2 |
| Cyfanswm | 5 |

| Aelwydydd presennol (gweler nodyn 7) | Aelwydydd y dyfodol (ym mlwyddyn 5) | Aelwydydd y dyfodol (cyfnod y cynllun) |
|---|---|---|
| K. 4 | 5 | 5 |
| L. Yr angen am leiniau i aelwydydd ychwanegol | 0 | 0 |

| Angen Nas Diwallwyd | Angen sy'n codi | Angen a ddiwallwyd |
|---|---|---|
| M. Galw presennol am breswylfeydd | 5 | |
| N. Galw am breswylfeydd yn y dyfodol (5 mlynedd) | 5 | |
| O. Galw am breswylfeydd yn y dyfodol (cyfnod y cynllun) | 5 | |
| P. Cyflenwad preswyl a gynllunnir | 4 | 4 |
| Q. Angen nas diwallwyd (5 mlynedd) | 1 | |

| | |
|---|---|
| R. Angen nas diwallwyd (cyfnod y cynllun) | 1 |

## Angen nas diwallwyd – Safleoedd Tramwy

Er gwaethaf y ffaith mai ychydig o dystiolaeth sydd o ddata'r cyfrif carafanau cenedlaethol ac o'r arolwg a gynhaliwyd fel rhan o'r asesiad hwn mae digon o ddata lleol i ddangos bod angen darpariaeth dramwy. Mae ymatebion yr arolwg (E4) yn dangos bod y rhai a gyfwelwyd yn awgrymu bod angen safleoedd tramwy ledled Cymru ac yn arbennig yng Nghonwy a Sir Ddinbych.

Fodd bynnag, mae data lleol presennol yn dangos bod cyfran fawr o wersyllu di-awdurdod yn digwydd mewn ardaloedd daearyddol sy'n agos at ffin gogledd-orllewinol Sir Ddinbych a ffin gogledd-ddwyreiniol Conwy.

Yn ystod cyfnod o 12 mis ers mis Hydref 2017 mae 17 o'r 29 o wersylloedd di-awdurdod sydd wedi digwydd o fewn ffin Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy wedi bod ym Mae Cinmel. Dros gyfnod hirach ers 2012 mae 11 o 20 o wersylloedd diawdurdod yn Sir Ddinbych wedi digwydd yn y dref drws nesaf i Fae Cinmel sef y Rhyl. Mae'r pwynt yn cael ei bwysleisio ymhellach pan ystyrir bod 71 o'r 83 o feddianwyr a gofnodwyd mewn gwersylloedd di-awdurdod yng Nghonwy wedi byw mewn gwersylloedd di-awdurdod ym Mae Cinmel. Yn anffodus nid oes gennym ddata lefel meddianwyr ar gyfer Sir Ddinbych.

Yn ogystal mae'r dadansoddiad daearyddol o'r boblogaeth brics a morter a nodwyd yn y cyfrifiad yn dangos crynodiad yn yr ardaloedd hyn sy'n awgrymu bod cysylltiadau teuluol a diwylliannol yn debygol o fod yn yr ardal.

Wrth ystyried atebion posibl i'r angen hwn am safleoedd tramwy a nodwyd mae'n rhaid i ni ystyried y gofynion tebygol o ran lleiniau a'r gofynion diwylliannol. Y grŵp mwyaf mewn gwersylloedd di-awdurdod trwy gydol y flwyddyn yw Teithwyr Gwyddelig mewn gwersylloedd ym Mae Cinmel. Y grŵp mwyaf nesaf yw Sipsiwn (Saesnig, Cymreig neu Albanaidd) hefyd ym Mae Cinmel. O'r sgyrsiau rhwng Swyddogion Cyngor Conwy a'r cymunedau hyn gwyddom fod y ddau grŵp yn dilyn patrymau gwersyllu gwahanol.

I Deithwyr Gwyddelig mae ardal Bae Cinmel a'r Rhyl yn fan aros pwysig ar y ffordd rhwng Iwerddon a Phrydain trwy derfynfa fferïau Caergybi ac mae'n cael ei defnyddio trwy gydol y flwyddyn er yn bennaf yn y gwanwyn a'r haf.

I'r gymuned Sipsiwn mae'r ardal hon yn bwysig yn llai aml ond ar gyfer grwpiau mwy. Mae'r ffigyrau ar gyfer Conwy yn dangos mai'r nifer cymedrig o garafanau ym mhob gwersyll yw 2 a'r nifer gymedrig o feddianwyr yw 3, er bod hefyd oddeutu 9 o gartrefi modur yn cael eu defnyddio fel llety ar draws pob gwersyll yn ystod y cyfnod.

Yn ogystal â'r gwaith maes, mae darpariaeth dramwy wedi cael ei thrafod wrth gwblhau'r Asesiadau Lles mewn gwersylloedd di-awdurdod. Dywedodd

nifer o Deithwyr Gwyddelig y byddent yn defnyddio darpariaeth dramwy, ond byddai’n dibynnu ar feddianwyr eraill sydd ar y safle ar yr un pryd.

| **Gwersylloedd Diawdurdod yn ystod y 12 mis o fis Hydref 2014 – Conwy** | |
|---|---|
| **Bae Cinmel** | 17 |
| **Llandudno** | 3 |
| **Llanfairfechan** | 2 |
| **Llandrillo-yn-Rhos** | 2 |
| **Betws y Coed** | 1 |
| **Bae Colwyn** | 1 |
| **Conwy** | 1 |
| **Craig Y Don** | 1 |
| **Penmaenmawr** | 1 |
| **Cyfanswm** | **29** |

| **Gwersylloedd Diawdurdod yn ystod y 12 mis o fis Hydref 2014 – Nifer y carafanau[4]** | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Sipsiwn (Saesnig, Cymreig neu Albanaidd) | Teithwyr Gwyddelig | Teithwyr Newydd | Anhysbys | Pobl sy’n cysgu allan | Cyfanswm |
| **Bae Cinmel** | 4 | 28 | 0 | 2 | | 34 |
| **Penmaenmawr** | | 7 | | | | 7 |
| **Llanfairfechan** | | | | 4 | | 4 |
| **Llandudno** | | 3 | | 0 | | 3 |
| **Betws y Coed** | | 2 | | | | 2 |
| **Bae Colwyn** | | 2 | | | | 2 |
| **Craig Y Don** | | | | 1 | | 1 |
| **Cyfanswm** | **4** | **42** | **0** | **7** | **0** | **53** |

| **Gwersylloedd Diawdurdod yn ystod y 12 mis o fis Hydref 2014 – Cyfanswm Meddianwyr[5]** | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Sipsiwn (Saesnig, Cymreig neu Albanaidd) | Teithwyr Gwyddelig | Teithwyr Newydd | Anhysbys | Pobl sy’n cysgu allan | Cyfanswm |
| **Bae Cinmel** | 18 | 50 | 3 | 0 | | 71 |
| **Betws y Coed** | | 9 | | | | 9 |

[4] Nid yw hyn yn cynnwys cartrefi modur a allai gael eu defnyddio fel llety hefyd.
[5] Nid oes modd cael ffigwr cywir ar gyfer nifer y meddiannwyr ym mhob achos

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Llandrillo-yn-Rhos** | | | | 0 | 2 | 2 |
| **Conwy** | | | | | 1 | 1 |
| **Cyfanswm** | 18 | 59 | 3 | 0 | 3 | 83 |

## Pennod Chwech: Casgliadau ac Argymhellion

Mae Deddf Tai (Cymru) 2014 yn nodi'n glir bod yn rhaid i Awdurdodau Lleol asesu anghenion Sipsiwn a Theithwyr a diwallu unrhyw angen a nodir.

Cynhaliwyd Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr Conwy 2016 yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru ac mae'n ystyried yr angen posibl am ddarpariaeth llety preswyl a thramwy i Sipsiwn a Theithwyr yn y dyfodol.

Dylid nodi bod yr Awdurdod yn cydnabod y diffyg ymgysylltiad â'r asesiad hwn o'i gymharu â'r un blaenorol a gynhaliwyd yn 2013. Mae gwersi wedi'u dysgu yn ystod y broses o ran hysbysebu, trefniadau ar gyfer digwyddiadau, y dull mwyaf priodol o gyfathrebu a rhannu data.

Dylid nodi fodd bynnag bod yr asesiad wedi'i gwblhau ar adeg anodd i'r Awdurdod. Mae'r cyfryngau lleol wedi trafod datblygiad y safle preswyl ar Ffordd Bangor yng Nghonwy a'r ymchwiliad i ddarpariaeth llety tramwy ar gilfan Smithy ger Llansan Sior a gwrthwynebiad y gymuned ehangach a rhai aelodau etholedig i'r datblygiadau. Gall y berthynas a'r ymddiriedaeth rhwng y gymuned deithiol a Llywodraeth Leol fod yn anodd oherwydd gorfodaeth hanesyddol. Mae'n bosibl bod y negyddoldeb hwn ynghylch darpariaeth wedi gwneud y gymuned deithiol yn llai parod i gymryd rhan yn yr asesiad.

Mae Siewmyn Teithiol hefyd wedi dweud bod amseriad gwaith maes yr asesiad wedi gwrthdaro â chyfnod prysur i'w busnes ac wedi arwain at eu diffyg ymgysylltiad.

### Darpariaeth Llety Preswyl

**Argymhellion:**

- Sefydlu rhestr aros ar gyfer lleiniau ar safle Ffordd Bangor er mwyn gallu dyrannu lleiniau gwag dilynol ac fel bo Asesiadau Llety Sipsiwn a Theithwyr yn cael eu trin yn gyflym ac yn gyson.
- Ymchwilio ymhellach i'r angen posibl am lain pellach gan gymryd cyngor gan Lywodraeth Cymru.

**Y Camau Nesaf:**

Rhestr Aros:

Ar adeg cwblhau'r asesiad hwn roedd gwaith terfynol yn cael ei gwblhau ar safle Ffordd Bangor ac roedd trefniadau'n cael eu gwneud ar gyfer arwyddo cytundebau lleiniau. Roedd y pedair llain breswyl wedi'u dyrannu o flaen llaw i breswylwyr yn y gwersylloedd goddefol a'u teuluoedd. Oherwydd hyn penderfynwyd peidio â chreu rhestr aros ar gyfer y safle nes ei fod yn weithredol.

Cynhelir y rhestr aros gan Gartrefi Conwy, asiantwyr y safle a hefyd partner y Cyngor sy'n gweinyddu'r rhestr aros ar gyfer tai cymdeithasol. Bydd modd

cael mynediad at y rhestr trwy'r gwasanaeth brysbennu opsiynau tai safonol a gynhelir gan Wasanaeth Datrysiadau Tai Conwy.

Mae polisi gosod lleol ar gyfer safle Ffordd Bangor wedi'i ddrafftio er mwyn sicrhau bod dyraniadau'n cael eu gwneud mewn modd sensitif ac er mwyn cymryd i ystyriaeth anghenion llety penodol y Gymuned Sipsiwn a Theithwyr. Bydd y polisi hwn yn cael ei gyflwyno i Grŵp Llywio Un Llwybr Mynediad at Dai (SARTH) ochr yn ochr â'r Adolygiad Polisi Dyrannu Cyffredin presennol.

Llain breswyl:

Er nad yw aelwydydd yn debygol o dyfu yn ystod cyfnod y CDLl, ymddengys y gallai aelodau o'r teulu sy'n dymuno ymuno â safle Ffordd Bangor arwain at angen ychwanegol posibl. Er y cadarnhawyd nad yw hwn yn angen di-oed, mae'r angen am un llain arall yn ystod y 2 – 5 mlynedd nesaf wedi'i gynnwys yn yr asesiad hwn at ddibenion ymchwilio pellach.

Cymerir cyngor pellach gan Lywodraeth Cymru ar y mater hwn a chredir y daw'r sefyllfa yn gliriach ar ôl i safle Ffordd Bangor a'i restr aros fod yn weithredol am gyfnod.

Dylid nodi y bydd darparu llain bellach ar safle Ffordd Bangor yn her oherwydd diffyg argaeledd tir. Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy hefyd yn cydnabod na fydd safle un llain yn cynrychioli gwerth am arian.

## Darpariaeth Dramwy

**Argymhellion:**

- Yng ngoleuni'r angen a welwyd am ddarpariaeth dramwy, ond hefyd y cyfyngiadau sy'n gysylltiedig â darpariaeth ar y cyd, datblygu safle tramwy i Sir Conwy yn amodol ar gymeradwyaeth gan y Cyngor. Mae gwersylloedd yn y Sir yn amrywio o ran maint; fodd bynnag argymhellir y byddai 7 llain dramwy (yn unol ag asesiad 2013) yn ddigonol ar gyfer y mwyafrif.

**Y Camau Nesaf:**

Ar ôl i Lywodraeth Cymru gymeradwyo'r asesiad llety SaTh, y cam nesaf fydd cynnal asesiad o'r 'galw am safleoedd' ac asesiad o'r gallu i ddarparu safle. Yn amodol ar gytundeb pellach y Cabinet, bydd y safle a ffafrir yn cael ei ddatblygu trwy gyflwyno cais cynllunio ffurfiol a/neu drwy broses adolygu ffurfiol y Cynllun Datblygu Lleol.  Bydd y Cynllun Datblygu Lleol yn cael ei adolygu gyda hyn, yn dilyn cyflwyno adroddiad ar adolygu'r cynllun i Lywodraeth Cymru.

Mae Grŵp Tasg a Gorffen Adolygu'r CDLl ac Is-Grŵp Tai wedi eu sefydlu i fwrw ymlaen â'r adolygiad ac i edrych ar dystiolaeth, gofynion tir a llunio polisi.  Bydd y broses gyffredinol a'r 'galw am safleoedd' yn cael eu datblygu

gan y trefniadau llywodraethu ffurfiol hyn ac fel sy'n ofynnol o dan Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 a Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Lleol) (Cymru) 2005. Bydd 'Canllaw Dylunio Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr' (Mai 2015) gan Lywodraeth Cymru yn sail i'r Asesiad Gallu Darparu Safle a'r safle a ffafrir.

Yn ôl cytundeb blaenorol y Cabinet, bydd yr holl safleoedd a gyflwynwyd yn ystod ymgynghoriad ar y 'galw am safleoedd' a gynhaliwyd yn 2015 yn cael eu hailystyried wrth gynnal yr asesiad o'r gallu i ddarparu safle.

## Atodiad 1 - Geirfa

Diffiniadau o dermau a chysyniadau allweddol yn yr adroddiad hwn

| | |
|---|---|
| Sipsiwn a Theithwyr | (a) personau sy'n arfer ffordd nomadig o fyw, beth bynnag fo'u hil neu eu tarddiad, gan gynnwys:<br>(1) personau sydd, ar sail eu hanghenion addysg, eu hanghenion iechyd neu eu henaint eu hunain, neu anghenion addysg, anghenion iechyd neu henaint eu teulu neu ddibynnydd, ac ar y sail honno yn unig, wedi rhoi'r gorau i deithio dros dro neu yn barhaol, ac<br>(2) aelodau o grŵp trefnedig o siewmyn teithiol neu bersonau sy'n rhan o syrcasau teithiol (p'un a ydynt yn cyd-deithio mewn grŵp tebyg ai peidio); a<br>(c) unrhyw bersonau eraill sydd â thraddodiad diwylliannol o nomadiaeth neu o fyw mewn cartref symudol.<br>Ffynhonnell: Adran 108, Deddf Tai (Cymru) 2014 |
| Safle preswyl | Gall safle preswyl parhaol fod yn eiddo i berchennog preifat neu i'r Awdurdod Lleol. Caiff y safle hwn ei ddynodi ar gyfer cael ei ddefnyddio fel safle Sipsiwn a Theithwyr am gyfnod amhenodol. Gall preswylwyr ar y safleoedd hynny ddisgwyl meddiannu eu lleiniau cyhyd ag y byddant yn cadw at reolau cytundebau'r lleiniau, o dan Ddeddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013. Gellir darparu mannau gweithio ar y safleoedd neu gerllaw ar gyfer gweithgareddau a wneir gan aelodau'r gymuned. |
| Safle preswyl dros dro | Mae'r safleoedd hyn yn safleoedd preswyl sydd â chaniatâd cynllunio neu drwydded safle am gyfnod cyfyngedig. Gall preswylwyr ar y safleoedd hynny ddisgwyl meddiannu eu lleiniau am hyd eu caniatâd cynllunio neu drwydded safle (neu cyhyd ag y byddant yn cadw at reolau cytundebau'r lleiniau, o dan Ddeddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013 – pa bynnag un sy'n digwydd gyntaf). |
| Safle Tramwy | Mae safleoedd tramwy yn gyfleusterau parhaol i'w defnyddio gan feddianwyr am gyfnod dros dro. Mae'n rhaid dynodi'r safleoedd hyn yn rhai tramwy a darparu llwybr i sipsiwn a theithwyr gynnal ffordd nomadig o fyw. Caniateir i feddianwyr unigol fyw ar y safle am uchafswm o 3 mis ar y tro.<br>Mae telerau penodol o dan Ddeddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013 yn berthnasol ar y safleoedd hyn. Gellir darparu mannau gweithio ar y safleoedd neu gerllaw ar gyfer gweithgareddau a wneir gan aelodau'r gymuned. |

| | |
|---|---|
| Mannau Aros Dros Dro | Gelwir y rhain yn ‘fannau aros’, ‘Atchin Tan’, neu ‘lonydd gwyrdd’, ymysg enwau eraill. Bwriedir i natur y rhain fod yn fyr dymor er mwyn cynorthwyo Awdurdodau Lleol lle derbynnir yr angen am leiniau, fodd bynnag, nid oes rhai ar gael ar hyn o bryd. Gellir defnyddio mannau aros dros dro a nodir mewn modd rhagweithiol er mwyn symud gwersylloedd sydd wedi’u gosod mewn mannau amhriodol, tra bo safleoedd amgen yn cael eu ceisio.<br>Rhaid i fannau aros dros dro ddarparu cyfleusterau gwaredu gwastraff, cyflenwad dŵr a glanweithdra o leiaf. |
| Llain breswyl | Tir ar safle cartref symudol ble mae gan feddianwyr hawl i osod eu cartrefi symudol am gyfnod amhenodol (oni nodir yn wahanol yn eu cytundeb llain). Fel arfer mae ganddynt floc amwynderau, lle ar gyfer carafán sefydlog a charafán deithiol a lle parcio. |
| Llain deithiol | Tir ar safle cartrefi symudol lle mae gan feddianwyr hawl i osod eu cartrefi symudol am uchafswm o 3 mis. Gall lleiniau tramwy fodoli ar safleoedd preswyl parhaol, ni argymhellir gwneud hyn. |
| Gwersyll Diawdurdod | Tir a feddiannir heb ganiatâd y perchennog neu heb ganiatâd cynllunio defnydd tir cywir. Gall yr Awdurdod Lleol oddef gwersylloedd, tra bo safleoedd amgen yn cael eu datblygu. |
| Datblygiad diawdurdod | Tir a feddiannir gan y perchennog heb y caniatâd cynllunio defnydd tir angenrheidiol. |
| Cyflenwad Preswyl Presennol | Nifer y lleiniau awdurdodedig sydd ar gael ac sy’n cael eu meddiannu yn yr Awdurdod Lleol neu ardal y bartneriaeth. Mae hyn yn cynnwys lleiniau ar safleoedd yr Awdurdod Lleol neu safleoedd preifat. |
| Galw presennol am breswylfeydd | Y rheiny sydd angen lleiniau awdurdodedig am amryw o resymau, gan gynnwys:<br>methu â sicrhau llain awdurdodedig sy'n arwain at feddiannu gwersylloedd diawdurdod;<br>methu â sicrhau caniatâd cynllunio cywir ar gyfer datblygiad diawdurdod;<br>aelwydydd sy’n byw o dan amodau gorlawn ac eisiau llain; aelwydydd mewn tai confensiynol sy’n destun atgasedd diwylliannol;<br>aelwydydd newydd a ddisgwylir i gyrraedd o fannau eraill. |
| Galw am breswylfeydd yn y dyfodol | Y lefel ddisgwyliedig o natur yr aelwydydd newydd a fydd yn cynhyrchu galw ychwanegol o fewn 5 mlynedd yr asesiad llety a chyfnod hirach y CDLl. |
| Yr angen cyffredinol am leiniau preswyl | Y cyfrifiad terfynol o angen llety sydd heb ei ddiwallu, a rhaid ei nodi drwy’r broses asesu llety Sipsiwn a |

| | |
|---|---|
| | Theithwyr. Ceir y ffigwr hwn trwy ychwanegu'r angen preswyl di-oed at y galw am lety preswyl yn y dyfodol. Bydd yr angen cyffredinol am lety preswyl yn cynnwys yr anghenion dros gyfnod o 5 mlynedd ac yn ystod y cyfnod hwnnw bydd yr asesiad llety yn cael ei ystyried yn un cadarn. |
| Cyflenwad o leiniau preswyl a gynllunnir | Nifer y lleiniau awdurdodedig sy'n wag ac ar gael i'w rhentu ar safleoedd Awdurdod Lleol neu breifat. Mae hefyd yn cynnwys lleiniau a fydd yn dod yn wag yn y dyfodol agos wrth i aelwydydd symud i dai confensiynol neu mewn amgylchiadau eraill. Dylai lleiniau ychwanegol y disgwylir iddynt agor neu safleoedd preifat sy'n debygol o lwyddo i gael caniatâd cynllunio yn fuan gael eu cynnwys fel cyflenwad preswyl a gynllunnir. |
| Aelwyd | Yn y canllaw hwn mae'r term hwn yn cyfeirio at unigolion o'r un teulu sy'n byw gyda'i gilydd ar un llain / tŷ / gwersyll. |
| Aelwyd gudd neu 'ddeublyg' | Mae hyn yn cyfeirio at aelwydydd sy'n methu â chael eu llety awdurdodedig eu hunain ac sy'n byw mewn llety awdurdodedig (tŷ neu lain) sydd wedi'i neilltuo i aelwyd arall.<br>Gall hyn gynnwys plant sy'n oedolion sydd wedi methu â symud tŷ neu wahanol aelwydydd sy'n meddiannu un llain. |
| Twf aelwydydd | Yn y canllaw hwn mae twf aelwydydd yn cael ei ddiffinio gan nifer yr aelwydydd newydd sy'n codi o aelwydydd sydd eisoes yn cael llety yn yr ardal. |

Atodiad 2 – Map o Ddwysedd Sipsiwn a Theithwyr mewn Llety Brics a Morter a nodwyd yng Nghyfrifiad 2011.



Atodiad 3 – Map o leoliadau Gwersylloedd Diawdurdod yn ystod 2015.



# Atodiad 4 – Enghreifftiau o Hysbysebu ar Gyfryngau Cymdeithasol / Gwefan



sir ddinbych denbighshire Cyngor County Council

Home

LDP Home
Supplementary Planning Guidance
Research & Information
Housing Land Availability
Examination
Local Housing Market Assessment (LHMA)
Annual Monitoring Report

Local Development Plan
What is the LDP?
The LDP provides guidelines as to what can be built and where throughout the County over a 15 year period. Each Council in Wales is required to produce a Local Development Plan (LDP) for its area. The LDP determines where new development will take place, taking into account amongst others, the need for:

- Employment land
- Housing
- Shops
- Leisure facilities
- Safeguarding our unique environment

The Denbighshire LDP was adopted by the County Council on 4th June 2013 and covers the period 2006 – 2021.

LDP documents and maps

**Latest News**

Current Consultations

Gypsy, Traveller and Show people sites

Do you or your family need a pitch or yard in Conwy or Denbighshire?
Conwy and Denbighshire Councils invite you to take part in a survey to make sure we know what type of accomodation is needed, so we can plan and develop the right sites for you to use.

To take part in the survey please call us on 01492 576274
or email housingstrategy@conwy.gov.uk
Gypsy, Traveller and Show people sites survey

**Developer Guidance Note**

At present the Council is unable to demonstrate a 5 year housing land supply as required by Welsh Government. This has resulted in a number of planning applications and enquiries for housing development on sites outside development boundaries as defined in the adopted LDP. The Council has therefore drafted a Developer Guidance Note which was approved by Planning Committee on 11th November 2015. The purpose of the Note is to provide guidance to potential applicants on providing comprehensive evidence to demonstrate that the proposed development is sustainable and is both viable and deliverable in order that it will make a genuine and early contribution to housing land supply and construction on the ground.

**Adoption of Development Brief.**
This site development brief was adopted by Denbighshire County Council's Planning Committee on 16th September 2015.

- Ty Nant, Prestatyn Development Brief
- Ty Nant, Prestatyn Development Brief - Consultation Report


https://twitter.com/conwycbc?lang=en
TT Travellers' Times Online - Con...
Conwy Council (@ConwyC...
File Edit View Favorites Tools Help
Find: gypsy
Previous Next Options
Home About
Search Twitter
Have an account? Log in
Conwy Council
@ConwyCBC
TWEETS 5,052
FOLLOWING 96
FOLLOWERS 6,886
LISTS 1
Follow
recycler?
Answer 10 simple questions to find out what type of recycler you are.
Conwy Council Retweeted
Business Wales @_businesswales · Oct 1
Save money on water usage and read these handy tips from @WRAP_Cymru.
A lot of water and money is flushed away. For relatively little investment in equipment such as cistern dams, flow restrictors, aerators, and trigger action taps or guns for hoses, you could make notable savings.
Do you have leaks or dripping taps? Do your taps turn off fully? A dripping tap can waste more than 5,500 litres of water per year.
Do your washrooms use dual-flush systems? Cistern dams, flow restrictors or percussion taps can all reduce water use.
@WRAP_Cymru
www.wrapcymru.org.uk
Conwy Council @ConwyCBC · Oct 1
Gypsy, Traveller and Showpeople Sites. Need a pitch or yard in Conwy or Denbighshire? Let us know at conwy.gov.uk/section.asp?ca...
Conwy Council (...
Inbox - simon.ow...
Documents
Evidence for Report
Social Media.docx...
10:15
29/10/2015



Contact us | Privacy and Cookies | Cymraeg

CONWY — CYNGOR BWRDEISTREF SIROL / COUNTY BOROUGH COUNCIL
LGC Awards 2015 Entrepreneurial Council of the Year

Search

Quick links | Home | Services | Find it | Report it | Apply for it | Pay for it | Maps | Jobs

a to z: a b c d e f g h i j k l m n o p q r s t u v w x y z

- Services
- Council and Democracy
- Council Departments
- Regulatory and Housing Services
- Housing Services
- Gypsy and Traveller Sites in Conwy County Borough
- Gypsy and Traveller Accommodation Assessment (GTAA)
- Gypsy & Traveller Mythbuster

Have your say — Public Consultations
Conwy connect — Webcasting of Council Meetings
CONWY Business Directory — Conwy Business Directory
Help during the Economic Downturn
Adviceguide

Listen

Location: services | council and democracy | council departments | regulatory and housing services | housing services | gypsy and traveller sites in conwy county borough | gypsy and traveller accommodation assessment (gtaa)

## Gypsy and Traveller Accommodation Assessment (GTAA)

**As part of the Housing (Wales) Act 2014 local authorities have a duty to undertake Gypsy and Traveller Accommodation Assessments (GTAAs) to assess the need for sites within their areas. These assessments will be undertaken every five years with the next one to be completed by 26th February 2016.**

This year Conwy will be working in partnership with Denbighshire County Council to assess the need for sites within both counties.

The previous needs assessment was completed in March 2013 and can be found below. The assessment was undertaken by Bangor University and was done on a regional North West Wales basis. The assessment identified a need for:

- Three residential pitches in Conwy for the period up until 2016, with a projected growth of 3% per annum until 2021.
- A transit site on the border of Conwy and Denbighshire

If you would like more information regarding the GTAA or if you are from the Gypsy and Traveller community and would be interested in taking part in the survey please contact the Housing Strategy Team on 01492 576274 or email housingstrategy@conwy.gov.uk.

**Related documents**

**Gypsy and Traveller Accommodation Needs Assessment Report 2013**
Document type: Acrobat/PDF File
Document size: 863k

**Weblinks**

- **Download the free Adobe Acrobat Reader to view PDF Files on our pages.**

Share

**Go to...**

- Winter Information
- Rubbish and recycling
- Planning applications & decisions
- Report a faulty streetlight
- Leisure centres
- Renew a library book
- Roadworks in Conwy
- Public transport information
- Car parks, permits & fines
- Start a new business
- About my council
- Get help at home
- School holiday dates
- Apply for social housing
- Agendas, reports & minutes

**Other Council sites**

- Conwy Flood Partnership
- Conwy County Borough Council's Social Media sites
- Family Information Directory
- Police and Crime Panel
- Theatr Colwyn & Cinema
- Venue Cymru
- Visit Conwy Tourism Site
- Young Conwy



Home About | Search Twitter | Have an account? Log in

**Conwy Council** @ConwyCBC

TWEETS 4,941 | FOLLOWING 95 | FOLLOWERS 6,844 | LISTS 1

Follow

help get parents into work ow.ly/TKsdx

9 1

**Conwy Council** @ConwyCBC · Oct 13
#CCBCPress 13/10/15 - Conwy confirms commitment to Children's Rights: Conwy's Cabinet Members have given the ... bit.ly/1LIRud6

2 1

**Conwy Council** @ConwyCBC · Oct 13
Gypsy and Traveller Drop in Session. Do you or your family need a pitch or yard in Conwy or Denbighshire? conwy.gov.uk/doc.asp?cat=14...

1 1

**Conwy Council** @ConwyCBC · Oct 13
#CCBCjobs Instructor Of Outdoor Education (CCBC): Job advertisement issued by CCBC on 13/10/2015Location: Cano... bit.ly/1Pdp0Pt


Cookies help us to provide, protect and improve Facebook's services. By continuing to use our site, you agree to our cookie policy.
facebook
Sign Up
Email or Phone
Password
Keep me logged in
Nwren Nwren
NWREN
15 October at 05:51
Gypsy and Traveller Drop in Session. Do you or your family need a pitch or yard in Conwy or Denbighshire?
CONWY
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL
Gypsy and Traveller Drop in Session - Conwy County Borough Council
On the 20th of October Conwy and Denbighshire councils are holding a drop in session for the gypsy…
CONWY.GOV.UK
1 Like
Like
Comment
Share
English (UK) · Privacy · Terms
Advertising · AdChoices · More
Facebook © 2015


NWREN
TWEETS
558
FOLLOWING
524
FOLLOWERS
436
FAVORITES
25
Follow
NW Equality Network
@NWRENinfo
North Wales Regional Equality Network. Challenging Discrimination & Hate Crime in North Wales / Herio Gwahaniaethu & Throsedd Casineb yng Ngogledd Cymru
Joined September 2013
Tweets
Tweets & replies
Photos & videos
NW Equality Network @NWRENinfo · 24h
Gypsy and Traveller Drop in Session. Do you or your family need a pitch or yard in Conwy or Denbighshire?
conwy.gov.uk/doc.asp?cat=14…
3
1
New to Twitter?
Sign up now to get your own personalized timeline!
Sign up
You may also like · Refresh
Stonewall Cymru




http://travellerstimes.org.uk/Events/Conwy-and-Denbighshire-Drop-In-session.aspx




facebook
Sign Up
Email or Phone
Password
Log In
Keep me logged in
Forgotten your password?
Create Page
Friends, Families and Travellers is on Facebook.
To connect with Friends, Families and Travellers, sign up for Facebook today.
Sign Up
Log In
Recent
2015
2014
2013
2012
2011
2010
1994
Friends, Families and Travellers
Non-profit Organisation
Timeline
About
Photos
Likes
Videos
PEOPLE
3,467 likes
ABOUT
http://www.gypsy-traveller.org/
Impressum
PHOTOS
Friends, Families and Travellers
15 October at 08:10
Do you or your family need a pitch or yard in Conwy or Denbighshire?
On the 20th of October Conwy and Denbighshire councils are holding a drop in session for the Gypsy and Traveller community to come and tell what type of accommodation is needed within the two counties. At the drop in session you will have the opportunity to tell us what sites are required so we can start to plan and develop the right sites for you to use.
As well as this we will be having different services ... See More
Like
Comment
Dawn Fuller, Jaine Cheruna, Victoria Carter and 4 others like this.
2 shares
Friends, Families and Travellers
14 October at 06:30
All our team sends their sympathy to the families that's lost loved ones in


swimming at Colwyn Bay this morning and it costing a ridiculous £8.50 (hardly an affordab... See More
25 April 2014 · 4 Reviews
Tell people what you think
EOPLE ALSO LIKE
Daily Post
News/Media Website
Dr. Holly Hatcher-Frazier
Public Figure
Daily Post Conwy
Region
See more Government Organisations in Conwy
IKED BY THIS PAGE
Prom Xtra
Digwyddiadau Conwy
Events Conwy
Community Support Worker (Ref: REQ828) : Close...
The post involves the support of adults with a learning disability to live independently in their own homes. Some of the requirements of the job will include enabling service users to practice everyday living skills, promoting choice, personal care and accessing their local communities. Due to the n...
CONWY.GOV.UK
Like
Comment
Share
1 share
Conwy County Borough Council shared a link.
13 October at 02:35
Gypsy, Traveller and Showpeople Sites - Conwy County Borough Council
Before February 2016, all Welsh Councils must speak to Gypsy and Traveller families in their area to find...
CONWY.GOV.UK
Like
Comment
Share
Conwy County Borough Council shared a link.
13 October at 02:35
Gypsy, Traveller and Showpeople Sites - Conwy County Borough Council
Before February 2016, all Welsh Councils must speak to Gypsy and Traveller families in their area to find...
CONWY.GOV.UK
Like
Comment
Share



AWAZ Cumbria
13 October at 23:29

Retweeted Conwy Council (@ConwyCBC):

Gypsy and Traveller Drop in Session. Do you or your family need a pitch or yard in Conwy or Denbighshire?
http://t.co/736i6mix6n

Gypsy and Traveller Drop in Session - Conwy County Borough Council

On the 20th of October Conwy and Denbighshire councils are holding a drop in session for the gypsy…

CONWY.GOV.UK/DOC.ASP?CAT=14…

Like · Comment · Share

2012
2011



Travellers' Times
15 October at 09:52

Gypsy and Traveller Drop in Session, 20/10/2015.
Do you or your family need a pitch or yard in Conwy or Denbighshire?
http://travellerstimes.org.uk/…/Conwy-and-Denbighshire-Drop…

CONWY
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL

Travellers' Times Online - Conwy and Denbighshire G/R/T Drop In Session 20/10/2015

Travellers' Times Online - Co… Denbighshire G/R/T Drop In S…

Like · Comment · Share

Patsy Morgan, Angela Peskett, Jaine Cheruna and 6 others like this.

3 shares



Conwy County Borough Council
13 October at 08:54 · Edited

Gypsy and Traveller Drop in Session. Do you or your family need a pitch or yard in Conwy or Denbighshire?
http://www.conwy.gov.uk/doc.asp?cat=143&doc=37150&Language=1

Gypsy and Traveller Drop in Session - Conwy County Borough Council

On the 20th of October Conwy and Denbighshire councils are holding a drop in session for the gypsy and traveller community to come and tell us what type of accommodation is needed within the two counties. At the drop in session you will have the opportunity to tell us what sites are required so we c…

CONWY.GOV.UK

Like · Comment · Share

2 shares

## Atodiad 5 – Taflen Hyrwyddo

### Gypsy, Traveller and Showpeople Sites

**Do you or your family need a pitch or yard in Conwy or Denbighshire?**

Before February 2016, all Welsh Councils must speak to Gypsy and Traveller families in their area to find out how many pitches, sites or yards are needed. A new law called the Housing (Wales) Act 2014 means each Local Council must then make sure they are built.

Conwy and Denbighshire Councils invite you to take part in a survey to make sure we know what type of accommodation is needed, so we can plan and develop the right sites for you to use.



**To take part in the survey**

Please call us on 01492 576274

Or email housingstrategy@conwy.gov.uk

You will need to give your full name and phone number or email address

**Thank you for your help.**

### Safleoedd i Sipsiwn, Teithwyr a Pherfformwyr Teithiol

**A ydych chi neu eich teulu angen llain neu iard yng Nghonwy neu Sir Ddinbych?**

Cyn mis Chwefror 2016, mae'n rhaid i holl Gynghorau Cymru gysylltu â theuluoedd Sipsiwn a Theithwyr yn eu hardal i ganfod faint o leiniau, safleoedd neu iardiau sydd eu hangen. Mae deddf newydd, Deddf Tai (Cymru) 2014, yn golygu y bydd yn rhaid i bob Cyngor Lleol sicrhau y caent eu hadeiladu.

Mae Cynghorau Conwy a Sir Ddinbych yn eich gwahodd i gymryd rhan mewn arolwg i sicrhau ein bod yn gwybod pa fath o lety sydd ei angen, er mwyn i ni allu cynllunio a datblygu'r safleoedd cywir i chi eu defnyddio.



**Er mwyn cymryd rhan yn yr arolwg**

Ffoniwch ni: 01492 576274

Neu e-bostiwch: strategaethtai@conwy.gov.uk

Bydd angen i chi ddarparu eich enw llawn a rhif ffôn neu gyfeiriad e-bost

**Diolch am eich help.**

## Tabl 6 – Log Cyfweliadau

| Cyfeiriad | Math o ddeiliadaeth | Cyfweliadau a geisiwyd | | | Technegau ymgysylltu a ddefnyddiwyd | Holiadur wedi'i gwblhau neu ei wrthod? | Rhesymau dros wrthod? |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ffordd Bangor, Conwy | Gwersyll Diawdurdod | 20/10/2015 | | | Cyfweliad a drefnwyd o flaen llaw | Do | Amh |
| Ffordd Bangor, Conwy | Gwersyll Diawdurdod | 15/09/2015 | | | Cyfweliad a drefnwyd o flaen llaw | Do | Amh |
| Ffordd Bangor, Conwy | Gwersyll Diawdurdod | 15/09/2015 | | | Cyfweliad a drefnwyd o flaen llaw | Do | Amh |
| Anhysbys – Cyfweliad dros y ffôn | Safle'r Awdurdod Lleol | 20/10/2015 | | | Cyfweliad dros y ffôn a drefnwyd o flaen llaw | Do | Amh |
| Y Fflint, Sir y Fflint | Safle awdurdodedig preifat | 14/09/2015 | | | Cyfweliad a drefnwyd o flaen llaw | Do | Amh |